# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2023<br>am 10:00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 13 DECEMBER 2023<br>at 10:00 am |
| CYFARFOD HYBRID - YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR | | HYBRID MEETING - VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1 |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mr John Robert Jones (Cadeirydd/Chair)
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cadarnhau cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023.

**3 DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 11 - 14)

Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**4 DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 15 - 26)

Adroddiad gan y Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol.

**5 CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 27 - 32)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
Ar gyfer Chwarter 1 a 2 2023/2024

**6 PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 33 - 52)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Safonau diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023.

**7 PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 53 - 64)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru yng Nghymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Mehefin 2023.

**8 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 65 - 70)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Mehefin 2023.

**9** **PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 71 - 74)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn manylu ar y Protocol Datrysiad Lleol sydd wedi ei ddatblygu gan y Pwyllgor Safonau at ddefnydd gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

**10** **DIWEDDARIAD O'R FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL** (Tudalennau 75 - 78)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau yng Nghymru.

**11** **CYNLLUNIAU HYFFORDDIANT Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 79 - 82)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn nodi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned i gais y Pwyllgor Safonau am ddogfennaeth.

**12** **CRYNODEB O'R YMATEBION I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ADOLYGIAD PENN** (Tudalennau 83 - 92)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn manylu ar y Crynodeb, sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ei Ymgynghoriad ar Ganfyddiadau Adolygiad Penn.

**13** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 93 - 100)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

**14** **POLISI INDEMNIADAU** (Tudalennau 101 - 102)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn amgáu copi o'r Polisi Indemniadau fel y'i trafodwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2023.

**15** **ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU SAMPL O AELODAU ETHOLEDIG Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 103 - 114)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro gyda manylion ynghylch y broses sydd i'w dilyn pan yn cynnal adolygiadau o gofrestrau diddordebau sampl o'r aelodau etholedig.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Mr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Celyn Menai Edwards<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes<br><br>**Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>**Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (RJ)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS) (ar gyfer Eitem 3)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Hyfforddiant AD (AJ) (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Margaret Thomas (Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned)<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r Cyfarfod. Dymunodd yn dda i'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ei hymddeoliad a diolchodd iddi am ei gwaith rhagorol gyda'r Pwyllgor Safonau dros y blynyddoedd diwethaf.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd yn ddwys, ac ar ran y Pwyllgor Safonau, â Mrs Sharon Warnes ar yr adeg anodd hwn yn dilyn colli ei gŵr. Cynhaliwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch.

### 1. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 yn gywir.

## 3. ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf ynglŷn â'r nifer isel o adroddiadau blynyddol sy'n cael eu cyflwyno gan aelodau etholedig.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth bod trefniadau ar waith i godi ymwybyddiaeth ac annog aelodau newydd i gyflwyno a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau. Dywedodd bod yr aelodau yn ymwybodol o'r broses a'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad blynyddol, a bod yr Arweinyddion Grŵp hefyd wedi cael eu briffio ar y mater.

Nodwyd bod 24 allan o 35 (68%) wedi dod i law hyd yma ar gyfer 2022/23, a bod hynny'n dda o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth y bydd fersiwn diwygiedig o'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Arweinyddion Grwp y mis yma ac i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 28 Mehefin 2023.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth ei fod yn bwriadu: -

- Trafod gydag aelodau unigol i weld a oes unrhyw beth yn eu rhwystro rhag cyflwyno a chyhoeddi adroddiad blynyddol.
- Trafod ffyrdd o adnabod ymarfer dda/gwersi i'w dysg gyda Chynghorau Sir eraill er mwyn annog mwy i gwblhau adroddiad blynyddol.
- Datblygu'r templed ar gyfer cwblhau adroddiadau blynyddol i sicrhau ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

## 4. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol ar yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD bod 59 diwrnod o hyfforddiant wedi cael ei gynnig i aelodau etholedig rhwng mis Mai 2022 a Mawrth 2023 ar bob math o bynciau e.e. Sgiliau Cadeirio a TGCh, a bod rhai sesiynau wedi cael eu cynnal ar gyfer Pwyllgorau penodol ee, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion/ Llywodraeth ac Archwilio. Nodwyd bod presenoldeb yn ystod y sesiynau hyn wedi amrywio.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD bod trefniadau ar waith ar gyfer Cynllun Hyfforddi 2023/23. Cyfeiriodd at Strategaeth Datblygu Aelodau 2022-2027, sy'n amlygu'r cymorth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hwyluso ar gyfer ei aelodau. Dywedodd bod pob aelod wedi cael gwahoddiad i gyfweliad datblygu i drafod eu hanghenion hyfforddi unigol. Nodwyd hefyd y byddant yn ymgynghori â'r Tîm Arweinyddiaeth a chyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac yn gofyn iddynt amlygu unrhyw anghenion datblygu a hyfforddiant posib. Yna, bydd y Cynllun Hyfforddi drafft yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yna'r Pennaeth Democratiaeth.

Yn ychwanegol i'r Cynllun Hyfforddi, nodwyd bod Bwletinau ar gyfer Aelodau Etholedig sy'n crynhoi'r hyfforddiant sydd ar gael ar y Gronfa Ddysgu wedi cael eu cynhyrchu a'u rhannu. Nodwyd hefyd y bydd adroddiadau chwarterol ar bresenoldeb aelodau yn ystod sesiynau hyfforddi yn cael eu rhannu â'r Arweinyddion Grwp yn y dyfodol.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddiant AD y rhoddir ystyriaeth i gynnal mwy o sesiynau hybrid/wyneb yn wyneb eleni. Dywedodd bod amser y sesiynau'n cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn bod yn hyblyg ac ymateb i anghenion unigolion gydag ymrwymiadau gwaith/gofalu.

Awgrymodd un aelod y dylid darparu hyfforddiant ychwanegol ar faterion cynllunio i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant AD y dylid siarad â'r Swyddogion Cynllunio ynglŷn ag unrhyw hyfforddiant bellach yn y lle cyntaf.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi Aelodau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 28 Mehefin 2023 er mwyn ei gymeradwyo.**
- **Bod y Rheolwr Hyfforddiant AD yn codi'r mater ynglŷn â darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gyda Swyddogion Cynllunio'r Cyngor.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

**5. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddar ar y cwynion chwarterol a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref/Cymuned.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro nad oedd unrhyw gwynion wedi cael eu cyflwyno i OGCC ynghylch Cynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod Chwarter 3, 2022/23 (Hydref - Rhagfyr 2022) a Chwarter 4, 2022/23 (Ionawr - Mawrth 2023).

Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw gwynion wedi cael eu cyflwyni i OGCC ynghylch Cynghorwyr Tref/Cymuned Ynys Môn yn ystod Chwarter 3 a Chwarter 4, 2022/23.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1-4.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn rhannu Atodiadau 1-4 gydag aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor, ac aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eu Newyddlenni unigol.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 6. PENDERFYNIADAU CYHOEDDUS AR GYFER HOLL GYNGHORAU CYMRU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn crynhoi'r wybodaeth a oedd wedi'i gyhoeddi ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y cyfnod Rhagfyr 2022 hyd Mai 2023 mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Dirprwy Swyddog Monitro bod crynodeb cynhwysfawr o'r 7 achos a oedd yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad ar gael yn Atodiad 1.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) mai'r brif thema yn yr adroddiad yw bod yr Ombwdsmon yn dal i ddefnyddio'r prawf trothwy dau gam er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i gŵyn ai peidio. Dywedodd bod dau achos wedi'u cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru, a bod dau wedi'u cyfeirio at y Pwyllgor Safonau perthnasol. Trafodir achos rhif 2 mewn mwy o fanylder yn eitem rhif 7 ar yr agenda.

Nodwyd y bydd penderfyniadau'r Ombwdsman yn cael eu cynnwys yn y Newyddlen nesaf y Cynghorwyr Sir a'r Cynghorwyr Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cynnwys dolenni i'r achosion a adroddwyd yn eu cylch a'r pwyntiau dysgu a amlygwyd gan yr Ombwdsmon yn y Newyddlenni ar gyfer y Cynghorwyr Sir a'r Cynghorwyr Tref a Chymuned.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn crynhoi'r prif faterion a phwyntiau dysgu yn y penderfyniadau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Dirprwy Swyddog Monitro grynodeb o'r 2 achos canlynol a gyflwynwyd i Banel Dyfarnu Cymru: -

Achos 1 – Apêl y Cynghorydd Paul Rogers yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a oedd heb ei gyflwyno cyn y terfyn amser. Nodwyd bod rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o faterion technegol wrth apelio a glynu wrth yr amserlenni llym sydd wedi cael eu gosod ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl.

Achos 2 – Mae achos y cyn-Gynghorydd Sheila Jenkins yn fwy cymhleth gan ei fod yn ymwneud â chyn gynghorydd a oedd wedi cymryd rhan mewn eitem fusnes a heb ddatgan buddiant personol a rhagfarnus ar ddau achlysur. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod hwn yn achos difrifol o dorri'r cod a chafodd ei anghymhwyso am flwyddyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r astudiaethau achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd adroddiad, a nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn.

## 9. PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar gyflwyno Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod y Pwyllgor Safonau wedi trafod p'un ai a oedd yn dymuno mabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned, yn debyg i'r Protocol a gafodd ei ddrafftio gan y Pwyllgor a'i fabwysiadu gan aelodau'r Cyngor Cymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod Un Llais Cymru wedi cyhoeddi Protocol i'w ddefnyddio gan y Cynghorau Tref a Chymuned i'w helpu i ddatrys materion lefel isel yn fewnol. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau'n annog y Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu a, lle bo angen, defnyddio'r Protocol hwnnw, serch hynny nid yw pob un Cyngor wedi'i fabwysiadu. Nid yw bob amser yn ymarferol chwaith, gan fod y broses yn dibynnu'n drwm ar gynnwys Cadeirydd a Chlerc y Cyngor perthnasol, rhywbeth sydd ddim bob amser yn bosibl os ydynt ynghlwm â'r anghydfod.

Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi cynorthwyo'r Cynghorau Tref a Chymuned gyda phrosesau datrys anffurfiol yn y gorffennol. Nodwyd hefyd nad yw'n orfodol cymryd rhan mewn proses o'r fath a bod hynny'n digwydd yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p’un ai y dylai’r Pwyllgor ddatblygu ei Brotocol ei hun i ddelio â materion yn ymwneud ag ymddygiad, i gyd-fynd â Phrotocol Un Llais Cymru. Yn dilyn trafodaeth, cafodd y cynnig drafft yn Atodiad 1 ei dderbyn gan y Pwyllgor, yn amodol ar fân newidiadau h.y. egluro pryd y dylid defnyddio Protocol Un Llais Cymru, a defnyddio iaith lai technegol yn y ddogfen.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â p’un ai a fyddai modd i Un Llais Cymru addasu ei Brotocol a darparu hyfforddiant i Gynghorau Tref a Chymuned. Ymatebodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod y Protocol sydd wedi cael ei gyhoeddi gan Un Llais Cymru yn nodi y dylai swyddogion/aelodau o *“Gynghorau Tref a Chymuned dderbyn hyfforddiant er mwyn eu galluogi i weithredu’r Protocol”.*

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i weld a yw’n cynnig hyfforddiant ar ei Brotocol Datrysiad Lleol, gyda’r bwriad o rannu’r wybodaeth hon â’r Cynghorau Tref a Chymuned.**
- **Derbyn Protocol Datrysiad Lleol drafft y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned sydd ar gael yn Atodiad 1, yn amodol ar y mân newidiadau sydd wedi’u rhestru yn yr adroddiad.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau’n anfon copi o’i Brotocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned i’r Cynghorau Tref a Chymuned drwy’r Newyddlen a bod Cadeirydd y Pwyllgor yn ei gyflwyno yn ystod cyfarfod o’r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau’n cynnal trafodaethau pellach ar sut i hyrwyddo Protocol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 10. DIWEDDARIAD AR FFORWM CENEDLAETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol), yn dilyn cyfarfod cyntaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau ym mis Ionawr eleni.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Dirprwy Swyddog Monitro y bydd y Pwyllgor Safonau’n cael cyfle, drwy’r Cadeirydd, i godi unrhyw faterion pwysig eraill yng nghyfarfod nesaf y fforwm ar 30 Mehefin.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn y cwestiynau a ganlyn yn ystod y cyfarfod diwethaf: -

- Sut mae Cynghorau eraill yn paratoi a chyflawni Adroddiadau Blynyddo Aelodau?
- Ydi awdurdodau lleol eraill yn darparu Hyfforddiant Sgiliau Cadeirio? A oes modd trefnu hyfforddiant drwy’r Fforwm?

Nodwyd bod y Fforwm wedi cytuno i edrych ymhellach ar Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau a Hyfforddiant Sgiliau Cadeirio.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau ystyried p'un ai a oeddent yn dymuno codi unrhyw faterion yng nghyfarfod nesaf y Fforwm, er mwyn iddynt gael eu cynnwys ar yr agenda.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Cadeirydd yn mynd ar ôl y materion uchod yn cynnwys p'un ia a ydi'r hyfforddiant sgiliau Cadeirio yn orfodol mewn awdurdodau eraill, a'i fod yn codi'r materion a ganlyn yng nghyfarfod nesaf y Fforwm: -**

  - **Pa fath o rôl (prosesau/gweithdrefnau) y mae Pwyllgorau Safonau eraill yn ei chwarae wrth ddelio â Chynghorau Tref a Chymuned?**
  - **Beth ydi profiad Pwyllgorau Safonau eraill o hyfforddiant Un Llais Cymru?**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/2023

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Drafft gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ynghyd â Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod aelodau wedi cyfarfod yn anffurfiol i drafod yr Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Rhaglen Waith ar gyfer 2023/24. Dywedodd nad ydi'r Adroddiad yn gyflawn ar hyn o bryd, gan nad ydi'r broses i gasglu gwybodaeth gan yr Arweinyddion Grŵp ynglŷn â'u dyletswyddau newydd wedi'i chwblhau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cytuno ar gynnwys yr adroddiad ac atodiadau drafft yn amodol ar gynnwys brawddeg i ddiolch i'r swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor am eu gwaith.**
- **Bod yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1) yn cael ei ddiweddaru ar ôl i'r broses o gasglu gwybodaeth gan yr Arweinyddion Grŵp gael ei chwblhau.**
- **Bod unrhyw newidiadau i'r Adroddiad Blynyddol yn cael eu gwneud naill ai yn ystod cyfarfod anffurfiol neud trwy ohebu â holl aelodau'r Pwyllgor, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd, ac yn dilyn trafodaeth â'r Swyddog Monitro.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 12. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR YR ADOLYGIAD PENN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ymgynghoriad drafft Llywodraeth Cymru ar yr Adroddiad Penn.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod Llywodraeth Cymru ynghanol proses ymgynghori ar yr Adolygiad Penn. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd yn anffurfiol i drafod barn y Pwyllgor Safonau mewn ymateb i gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori (Atodiad 1). Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried y cwestiynau ac mae ymateb drafft wedi cael ei baratoi (Atodiad 2). Cyflwynwyd ymateb drafft y Pwyllgor Safonau gan Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod cyfarfod o'r Arweinyddion Grŵp.

Adroddodd y Cadeirydd bod yr Arweinyddion Grŵp wedi trafod y cyfnod cyn y gallai cyn-gynghorwyr neu swyddogion ddod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ystod eu cyfarfod. Dywedodd nad oedd consensws clir ynglŷn â hynny. Roedd dau Arweinydd Grŵp yn cytuno â chynnig y Pwyllgor Safonau, sef: -

1. Gall Cyn-gynghorydd eistedd fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ddwy flynedd ar ôl gadael swydd etholedig.
2. Gall y rhan fwyaf o gyn-weithwyr y Cyngor eistedd fel aelod annibynnol ar ôl 12 mis o ddiwedd eu cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unigolyn a oedd mewn swydd wleidyddol gyfyngedig ddisgwyl dwy flynedd yn dilyn diwedd eu cyflogaeth.

Roedd dau Arweinydd Grŵp yn credu y dylai'r cyfnod gras fod yn 3 blynedd ar gyfer cyn-weithwyr ac na ddylai cyn-gynghorwyr fod yn gymwys i fod yn aelodau annibynnol o Bwyllgorau Safonau.

Nodwyd y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu adborth ar yr ymgynghoriad ar ôl coladu'r holl ymatebion. Bydd cyfle i'r Pwyllgor Safonau ystyried y trosolwg hwnnw maes o law.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n cymeradwyo'r ymateb drafft yn Atodiad 2, ar yr amod bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a'r Cadeirydd yn addasu geiriad y ddogfen [fel y nodir yn y trydydd paragraff isod].**
- **Bod y Cadeirydd yn anfon ymateb y Pwyllgor Safonau i'r ymgynghoriad drafft at Lywodraeth Cymru ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.**
- **Bod y Cadeirydd yn nodi bod gwahaniaeth barn ynglŷn â'r ymateb i gwestiynau 14 ac 15 mewn perthynas â'r cyfnod cyn y caiff cyn-gynghorwyr a gweithwyr ddod yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau pan ddaw unrhyw ddogfennau neu wybodaeth i law yn dilyn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 13. CYNLLUNIAU HYFFORDDI'R CYNGHORAU TRE A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ei bod hi bellach yn ofynnol i bob Cyngor Tref a Chymuned ddatblygu a chyhoeddi Cynllun hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a swyddogion. Roedd rhaid cyhoeddi'r Cynllun Hyfforddi cyntaf cyn pen 6 mis yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau, yn ei Newyddlen i'r Cynghorau Tref a Chymuned, wedi gofyn am gopi o Gynllun Hyfforddi pob Cyngor Tref a Chymuned. Nodwyd mai dim ond 5 allan o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned oedd wedi ymateb.

Mynegwyd Pryder ynglŷn â'r ymateb siomedig gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Trafodwyd ffyrdd o atgoffa'r Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â'u rhwymedigaeth gyfreithiol i gynhyrchu Cynllun Hyfforddi a'i gyhoeddi ar eu gwefan a ffyrdd o'u cynorthwyo i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r wybodaeth ynglŷn â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.**
- **Ysgrifennu at bob Cyngor Tref / Cymuned i weld a ydynt wedi cael copi o Newyddlen y Pwyllgor Safonau a oedd yn gofyn am gopi o'u Cynllun Hyfforddi.**
- **Bod adroddiad diweddaru ar y Cynlluniau Hyfforddi'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Celyn Edwards am ei gwaith gyda'r Pwyllgor Safonau. Dywedodd y bydd yn ymddiswyddo fel aelod o'r Pwyllgor yn fuan.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 13 Rhagfyr 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin a thrafodaethau dros yr haf. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Mehefin ar drefniadau adroddiadau blynyddol aelodau ac ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor dros yr haf ar ddiwygio Protocol Cyfarfodydd Hybrid y Cyngor a threfniadau llesiant aelodau.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad ar y materion canlynol:
    a. Protocol ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd Cyngor / Pwyllgor Hybrid
    b. Llesiant aelodau – hyfforddiant a chymorth
    c. Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig
    d. Swydd ddisgrifiadau aelodau ac arweinyddion grŵp
    e. Cofrestrau diddordeb aelodau

**Protocol Cyfarfodydd Hybrid**

3. Diwygiwyd y Protocol dros yr haf er mwyn cyfuno dwy ddogfen a rhoi canllawiau clir a chyfredol i aelodau pwyllgorau'r Cyngor. Yn ystod y broses o baratoi'r protocol newydd ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Democrataidd; Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau.

4. Bwriad y Protocol yw cefnogi ac ategu yr arweiniad a'r rheolau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor drwy roi mwy o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd hybrid. Bwriedir iddo hefyd gefnogi'r Cod Ymddygiad i Aelodau drwy egluro y disgwyliadau ar aelodau wrth iddynt ymuno mewn cyfarfodydd o bell.

5. Rhannwyd y Protocol newydd gyda aelodau ym mis Hydref a'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor. Yn dilyn hynny, diwygiwyd y datganiad cychwynnol ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor sy'n cael ei ddarllen gan Gadeirydd pwyllgor, er mwyn adlewyrchu'r prif newidiadau / negeseuon yn y Protocol. Er enghraifft, mae'n tynnu sylw at yr angen i aelodau sy'n ymuno o bell gadw eu camerâu ymlaen yn ystod cyfarfodydd ac i roi gwybod i'r Cadeirydd os ydynt angen gadael am ba bynnag reswm.

6. Bwriedir adolygu'r Protocol ar ôl chwe mis er mwyn ystyried a oes angen ei ddiwygio ymhellach neu codi ymwybyddiaeth ymysg aelodau.

**Llesiant aelodau**

7. Gyda phryderon cynyddol am sylwadau sarhaus ac ymddygiad bygythiol tuag at gwleidyddol a chynrychiolwyr ar bob lefel, mae'n bwysig bod cynghorwyr sir yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth addas i warchod eu lles.

8. Rhannwyd negeseuon gyda'r aelodau yn arwain i fyny at yr wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl ym mis Mai yn egluro'r

9. cymorth sydd ar gael, e.e. hyfforddiant penodol i aelodau; modiwlau e-ddysgu corfforaethol; a gwasanaeth cwnsela cyfrinachol.

10. Mae'r gwasanaeth democrataidd yn cydweithio'n agos gyda'r Tim Hyfforddiant ar y cynllun datblygu aelodau blynyddol. Mae'r cynllun am 23/24 yn cynnwys hyfforddiant mandadol ar Iechyd a Diogelwch, gyda diogelwch personol yn rhan o hynny. Gall aelodau etholedig hefyd fanteisio ar y modiwlau llesiant sydd ar gael i staff yn gyffredinol.

11. Mae bwriad datblygu'r elfen llesiant aelodau ymhellach yn ystod 2024 a byddwn yn parhau i gydweithio gyda WLGA ar hynny. Rydym yn disgwyl derbyn Fframwaith Hunan-asesu Datblygu Aelodau newydd gan y Gymdeithas yn y flwyddyn newydd a bydd hynny'n sail i drafodaethau newydd ar flaenoriaethau hyfforddiant.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

12. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ym Mehefin yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa ac yn egluro'r ymdrech oedd wedi bod i geisio cynyddu'r nifer o adroddiadau a gyflwynwyd.

13. Eglurwyd ar y pryd bod 19 adroddiad allan o 35 wedi eu derbyn gan aelodau. Derbyniwyd 26 adroddiad yn y diwedd am y cyfnod 22/23. Mae hynny'n gynnydd sylweddol ar y flwyddyn 21/22.

14. Mae'r holl adroddiadau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac rydym yn nodi os nad yw aelod wedi cyflwyno adroddiad. Mae'n rhaid pwysleisio hefyd wrth gwrs nad oes rheidrwydd statudol ar aelod i gyflwyno adroddiad.

15. Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi cynnal trafodaethau gyda rhai awdurdodau eraill i ddeall eu profiadau nhw ac wedi dechrau addasu'r templed adroddiad ar gyfer 23/24 er mwyn ei wneud mor hwylus a phosibl i'w gwblhau.

**Swydd ddisgrifiadau aelodau ac arweinyddion grŵp**

16. Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor Safonau gyda arweinyddion grŵp dros yr haf, gofynnwyd i ni ymchwilio mewn i'r angen i ddiffinio rôl arweinydd grŵp yn well.

17. Mae swydd ddisgrifiadau a manyleb person wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gyfer nifer o rolau aelodau etholedig, gan gynnwys:
    a. Aelod etholedig
    b. Aelod o bwyllgor penodol
    c. Cadeirydd pwyllgor
    d. Aelod o'r Pwyllgor Gwaith
    e. Arweinydd a Dirprwy
    f. Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

18. Felly mae gwybodaeth am rôl a dyletswyddau arweinydd grŵp yn bodoli eisoes ac rydym wedi mynd ati i gymharu'r wybodaeth gyda argymhellion WLGA ar gyfer rôl o'r fath. Maent yn cyd-fynd yn agos.

19. Rydym yn bwriadu ymgynghori gyda'r arweinyddion grŵp dros yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon bod y swydd ddisgrifiad a'r manyleb person yn addas.

**Cofrestr diddordeb aelodau**

20. Mae cofrestr diddordebau pob aelod etholedig wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

21. Anfonwyd neges gan gwasanaethau democrataidd at pob aelod ym mis Medi yn eu hatgoffa i wirio'r wybodaeth a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol. Atgoffwyd aelodau hefyd i gofrestru unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau o fewn 28 diwrnod gwaith.

22. Bwriadwn anfon neges atgoffa arall yn y flwyddyn newydd.

**Argymhelliad**

23. I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | RHAGFYR 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | L.AMY JONES (estyniad 2505) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau ar faterion hyfforddiant a datblygu ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2023, a rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynigir i Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Mae'r cynllun ar gyfer 2023-24 (Atodiad 1) wedi'i rannu i'r benawdau penodol canlynol; Hyfforddiant Mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac e-ddysgu. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn darparu diweddariad isod ar ddarparu hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd yn hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 27 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Hyfforddi Adnoddau Dynol. Manylion llawn yn atodiad 2.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am hyfforddiant y bernir ei fod yn orfodol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 15/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 |
| GDPR / Diogelu Data | 29/35 |
| Seibr-ddiogelwch | 33/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Lle bo bosib, bydd sesiynau hyfforddi mandadol pellach yn cael eu threfnu, neu bydd sesiynau hyfforddi corfforaethol yn cael eu hagor, a bydd llefydd ar gael i sicrhau bod yr holl Aelodau Etholedig wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol.

Yn ddiweddar, mae'r tîm hyfforddi wedi cyflwyno sesiynau 1-1 sgiliau TG ar gyfer Aelodau Etholedig er mwyn datblygu hyder a gallu. Mae'r sesiynau hyn wedi profi i fod yn gadarnhaol ac yn fuddiol, ac wedi eu cefnogi gan ganllawiau *'How to'* lle bo angen er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Yn dilyn y sesiynau hyn, datblygwyd holiadur sgiliau TG a bydd yn cael ei rannu gyda'r holl Aelodau Etholedig drwy gyfrwng e-bost, yn ogystal â chopïau caled er mwyn pennu meysydd datblygu penodol pellach. Unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi'i chasglu, bydd y tîm Hyfforddi mewn sefyllfa i gynllunio sesiynau sgiliau TG pellach i barhau â'r cynnydd yn y maes.

Mae nifer o sesiynau hyfforddi Cyflwyniad i Newid Hinsawdd wedi'u cyflwyno i Aelodau Etholedig i gefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i fod yn Gyngor Sero Net erbyn 2030. Hyd yn hyn, mae 21 Aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol.

Mae hyfforddiant Twyll a Llygredd wedi'i nodi fel angen hyfforddiant ar gyfer staff corfforaethol ac Aelodau Etholedig, o ystyried y risg ddifrifol i'r awdurdod a'r ffaith ein bod i gyd yn gyfrifol am reoli'r risgiau hyn. Cynigiwyd sesiynau yn ystod y dydd a gyda'r nos i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg, a welodd 17 yn bresennol.

O ran Llesiant, gan na chodwyd unrhyw anghenion penodol, gwahoddir Aelodau Etholedig i phob digwyddiad Lles a drefnir yn gorfforaethol, â enghreifftiau diweddar sef; Menopos, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Lles a Gorflino. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y sesiynau hyn yn cael eu hysbysebu drwy daflen yn unig. Ni rennir gwahoddiadau calendr *Outlook* fel sy'n arferol gyda chyfleoedd hyfforddi a datblygu eraill (fel yr amlygir ym mhwynt 3).

## 3. CYFATHREBIADAU

Mae'r tîm hyfforddi yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelod Etholedig, ac yn parhau i esblygu yn ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rannu drwy'r trefniadau arferol, drwy gyfeiriad e-bost *'CefnogaethAelodau*', yn ogystal â gwahoddiadau drwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi sydd i ddod mewn fformat sy'n haws ei ddilyn. Yn ddiweddar, rhannwyd hyn gydag Aelodau Etholedig (Atodiad 3) gyda chopïau caled hefyd ar gael i'w weld yn lolfa'r Aelod neu ar gais.

Mae'r tîm hyfforddi yn rhannu diweddariadau chwarterol gyda gwasanaethau Democrataidd sy’n manylu ar ffigyrau yr hyfforddiant sydd wedi ei gwblhau gan Aelodau Etholedig ar gyfer y chwarter penodol hwnnw. Mae’r wybodaeth hon yn cael ei rannu gyda gydag Arweinyddion y Grwpiau maes o law, a hynny mewn fformat hawdd i’w ddilyn. Cadarnhawyd, mewn cyfarfod diweddar o’r Arweinyddion Grŵp, nad oedd unrhyw faterion yn codi o ran y ffordd y cyflwynir y wybodaeth. Cytunwyd, felly, wrth symud ymlaen, y bydd y tîm hyfforddi yn darparu rhagor o wybodaeth am yr holl hyfforddiant mandadol yn ychwanegol, gan gynnwys rhannu manylder pwy sydd yn rhagor i’w chwblhau.

## 4. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau yn cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, er bod opsiwn i gyflwyno sesiynau ar-lein yn parhau i gael eu hystyried. Bydd y dull cyflwyno yn ddibynnol ar y maes yn ogystal â pha ddull a gynigir gan y darparwr hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i dderbyn cynnig o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn cynnar gyda'r nos, er mwyn sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Oherwydd yr angen i gynnig sesiynau yn ystod y dydd a gyda'r nos, ni ystyriwyd ei bod yn gost-effeithiol gallu cynnig sesiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, felly lle bo'n bosib, ceisir hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir gwasanaeth cyfieithu i'r rhai sy'n dymuno gwrando trwy gyfrwng y Saesneg.

## 5. I GRYNHOI

Mae'r cynllun a gyflwynir yn ddogfen esblygol a bydd yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

Tudalen 18

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

**MAI 2023 – MAWRTH 2024**

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.*

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | |
| **CÔD YMDDYGIAD** | • Trosolwg o trefniadau Democrataidd; *h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** | • Deallt y rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **MATERION DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA DATA PERSONOL / GWYBODAETH PERSONOL:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeallt rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deallt gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deallt sut i gydymffurfio a'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>*(bob 3 mlynedd)*<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) - Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A DIOGELWCH –** *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deallt gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig<br>• Trosolwg cyffredin o Diogelwch Personol i Aelodau | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU CADEIRIO** | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol | Cyflwyniad: (rhithiol)<br>*i'w hadnewyddu pob 2 flynedd*<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Cadeiryddion ac Îs-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau |
| **CYNLLUNIO A THRWYDDEDU, LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | • Hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio |

| | TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | | |
| Tudalen 20 | **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | I fyny at tair o sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **SGILIAU TGCH CANOLOG** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **CYFLWYNIAD I NEWID HINSAWDD** | | Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **DIFENWAD** | • Sut i osgoi ac/neu lliniaru yn erbyn unrhyw cais/ceisiadau difenwad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **RHEOLAETH CYLLID A THRYSORLYS** | • Dealltwriaeth o faterion ariannol<br>• Gosodiad Cyllided, ayyb. | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog Adran 151 / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda profiad o cynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer | Cyflwyniad â cyfweliadau-ffug, a copïau i gadw<br>(wyneb i wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **YMWYBYDDIAETH DIWYLLIANOL SIPSIWN A THEITHWYR** | • Hyfforddiant Rhagarweiniol ar weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Cyflwyniad â gweithgaredd (wyneb-i-wyneb)<br><br>Tai/Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **Iechyd a Llesiant** | | | |
| **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFEYDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio â sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | • Darparu dealltwriaeth o:<br>- Hydwythdedd<br>- Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **YMWYBYDDIAETH MENOPOS** | • Trosolwg i'r rhai sy'n profi Menopos neu'n dymuno codi eu hymwybyddiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **YMWYBYDDIAETH OFALGAR** | • Sesiynau byr i drafod effaith straen ar y corff ac awgrymiadau ymlacio | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ar Gais** | | | |
| **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **CRAFFU** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Craffu<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion Craffu effeithiol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | All Elected Members |
| **ARCHWILIAD** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Archwiliad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol / Allanol | Holl Aelodau Etholedig |

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Cymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau **(gloywi i'w gytuno ar)**<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal **(i'w hadnewyddu yn ôl yr angen)**<br>- Caethwasiaeth Modern **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)** | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel - Asesiad Gweithle | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |

**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygiadol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**
**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib, drwy CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru**

**Cynnig Hyfforddiant a Datblygiad i Aelodau Etholedig yn 2023**

**Training and Development offered to Elected Members in 2023**

| Teitl y Cwrs | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **12** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **14** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **35** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg** | **17** | **43** | **Fraud & Corruption Awareness for Elected Members and Lay Members** |

# Cynllun Datblygu
# Aelodau Etholedig

2023/24

## Tachwedd 2023

**15/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**)  (*Cymraeg*)** - 13:00-14:30 - *Zoom*

**16/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**) (*Saesneg*)** - 18:00-19:30 - *Zoom*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 09:30-12:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**27/11/23 - Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau (*Mandadol**)** - 18:00-19:00 - *Zoom*

**29/11/23 - Digwyddiad Llesiant a Gorflino** - 13:30-15:00 - *Siambr y Cyngor, Pencadlys*

**30/11/23 - Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** - 13:30-15:30 - *Zoom*

## Rhagfyr 2023

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 09:30-12:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 17:30-19:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

## Ionawr 2024

## Chwefror 2024

**06/02/24 - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (*Mandadol**)** - 09:30-12:30 - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - TBC - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1'*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 09:30-11:30 - *Zoom*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 17:30-19:30 - *Zoom*

***mandadol ar gyfer Aelodau sy'n rhagor**

## Mawrth 2024

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a  Thrais Rhywiol** - 09:30-11:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a  Thrais Rhywiol** - 17:30-19:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

## Dyddiadau i'w gadarnhau:

**Cynllunio a Thrwyddedu (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**
**Cyllid a Rheoli'r Trysorlys (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**
**Sgiliau TGCh Cyffredinol**
**Arwain yn Ddiogel i Aelodau**

**Cefnogaeth Aelodau Etholedig**
CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Chynghorwyr Sir a (b) Chynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Chynghorwyr Sir a (b) Chynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2022) a Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2023) yn 2022/2023 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Mehefin 2023.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2023/2024 [Ebrill – Mehefin 2023], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2022/2023 [Gorffennaf – Medi 2023], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 1 a 2 **(Atodiadau 1 - 4)** yn cael eu dosbarthu o fewn y Newyddlenni i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 - 4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-4** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor o fewn eu Newyddlenni perthnasol.

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH**
**CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2023) – 2023/2024 – Quarter 1 (April – June 2023)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) 024736<br>(ii) 202207849 | 04/2023 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio. / Ombudsman decided not to investigate. |
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) 024735<br>(ii) 202207688 | 04/2023 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio. / Ombudsman decided not to investigate. |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2023) – 2023/2024 – Quarter 1 (April – June 2023)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT** | | | | |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2023) – 2023/2024 – Quarter 2 (July – September 2023)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O yn ymchwilio'r gŵyn /<br>O is investigating the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 025094<br>202303311 | Penderfyniad yr O / O's decision: 15.08.2023 | O ddim yn ymchwilio'r gŵyn /<br>O is not investigating the complaint |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2023) – 2023/2024 – Quarter 2 (July – September 2023)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT** | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 30 Tachwedd 2023.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd rhwng Mehefin a Thachwedd 2023 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig **[ATODIAD 1].**

## 2. NEWYDDLEN CHWARTEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y wefan, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi Newyddlen chwarterol. Mae ail Newyddlen Chwarterol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (dyddiedig Awst 2023) i'w gweld yma.

## 3. CEFNDIR

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd ar OGCC i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai pheidio. O dan y prawf trothwy rhaid i OGCC fod yn fodlon:-
- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol ac y byddai agor ymchwiliad er budd y cyhoedd.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;
(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu
(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a gafodd y cod ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle canfyddir bod y cod ymddygiad wedi cael ei dorri, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

**4. ARGYMHELLIAD**

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.**<br><br>Cyngor Cymuned y Mwmbwls<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202106588 | 21/03/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon 2 gŵyn gan Gadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar y pryd ("y Cyngor") bod Cyn-gynghorydd wedi torri amodau Cod Ymddygiad y Cyngor. | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>6(1)(d) – Ni ddylai aelodau wneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran. | Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Abertawe i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau. Bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. | COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Mae dolen i adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Abertawe ar y Gwrandawiad a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 ar gael yma.<br><br>**Penderfynwyd** bod:<br><br>Y Cyn Gynghorydd Louise Thomas wedi torri paragraffau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Y Cyn Gynghorydd Louise Thomas yn derbyn cerydd ffurfiol am dorri Paragraffau 6 (1) (a) a 6 (1) (d) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Pe byddai'r Cyn Gynghorydd |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Louise Thomas yn dal i wasanaethu fel Cynghorydd Cymuned, byddai'r Pwyllgor Safonau wedi ei gwahardd am 6 mis, sef y gwaharddiad mwyaf y gallai'r Pwyllgor ei roi. |
| **2.**<br><br>Cyngor Cymuned y Mwmbwls<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202106524 | 21/03/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon 2 gŵyn gan Gadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar y pryd ("y Cyngor") bod Cyn-gynghorydd wedi torri amodau Cod Ymddygiad y Cyngor. | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>6(1)(d) – Ni ddylai aelodau wneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran. | Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Abertawe i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau. Bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. | COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Cynhaliwyd y gwrandawiad ar y mater yr un pryd â'r mater uchod, o dan rhif 1.<br><br>Mae dolen i adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Abertawe ar y Gwrandawiad a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 ar gael yma. |
| **3.**<br><br>Cyngor Tref Bae Colwyn | 30/03/2023 | Cwynodd aelod o'r cyhoedd am neges yr oedd Aelod wedi ei rhannu ar y | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd | Canfu'r ymchwiliad fod y neges wedi tynnu sylw ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn erthyglau newyddion ar-lein. Roedd yr Aelod wedi ymddiheuro am | COD - Rhoddwyd y gorau | Atgoffir Aelodau i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif Cyfeirnod yr Achos 202205087 | | cyfryngau cymdeithasol yn dangos llofrudd torfol yn dal arwydd yn hyrwyddo bargen ar bryd bwyd mewn archfarchnad. Honnwyd bod yr Aelod wedi defnyddio ei lwyfan i wneud sylw gwleidyddol sarhaus. Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai ymchwiliad ystyried a allai'r Aelod fod wedi torri amodau paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod. | neu awdurdod. | unrhyw dramgwydd a achoswyd ac wedi dileu'r neges yn syth, gan honni nad oedd yn gwybod pwy oedd yr unigolyn yn y llun a'i fod wedi bod yn ddefnydd gwallus o *clipart* ac yn gamgymeriad gwirioneddol. Ni ddarparodd yr achwynydd unrhyw wybodaeth bellach.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai awgrymu cysylltiad rhwng y llofrudd torfol a'r fargen fwyd yn gymhariaeth ddybryd iawn, ac roedd y neges a'r sylw dilynol yn y cyfryngau a oedd yn cyfeirio at rôl yr Aelod fel cynghorydd yn awgrymu bod amodau paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad wedi cael eu torri. Fodd bynnag, honnodd yr Aelod fod y cyswllt yn anfwriadol ac er bod yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd hygrededd i esboniad yr Aelod ynghylch sut y gwnaed y neges, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ymddygiad tebyg gan yr achwynydd.<br><br>Roedd y neges yn gwbl amhriodol. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg ymgysylltu gan yr achwynydd, yr edifeirwch a | | gallai'r Cod Ymddygiad fod yn berthnasol o hyd.<br><br>Mae CLlLC wedi datblygu Canllaw i Aelodau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae ar gael yma. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | fynegwyd gan yr Aelod, yr her o wrthbrofi ei esboniad, ei gydweithrediad â'r ymchwiliad, a'r ffaith fod y neges wedi cael ei dileu ar unwaith, penderfynwyd na fyddai ymchwiliad pellach yn rhywbeth a fyddai er budd y cyhoedd. Cafodd yr Aelod ei rybuddio i gymryd gofal wrth rannu negeseuon cyhoeddus yn y dyfodol, a daeth yr ymchwiliad i ben. | | |
| **4.**<br><br>Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 201806120 | 30/03/2023 | Ym mis Rhagfyr 2018, cafodd swyddfa'r Ombwdsmon gŵyn gan Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg bod y Cyn Aelod (a oedd yn dal yn aelod o Gynghorau tref a sir ar y pryd) wedi cael ei gyhuddo o droseddau rhywiol hanesyddol ac, o'r herwydd, gallai fod wedi dwyn anfri ar ei ddau Gyngor ac ar ei swydd fel | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Mae adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu y bydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei ethol neu rhag bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru os yw unigolyn wedi ei gael yn euog o drosedd ac wedi ei ddedfrydu i garchar (boed wedi ei atal dros dro ai peidio) am 3 mis neu ragor.<br><br>Mae'r Cyn Aelod wedi ei anghymhwyso'n awtomatig rhag bod yn aelod o unrhyw Awdurdod yng Nghymru dan y ddarpariaeth uchod. Gan fod uchafswm y gwaharddiad sydd ar gael i Banel Dyfarnu Cymru eisoes wedi ei bennu, nid oes unrhyw fudd i barhau â'r ymchwiliad. Felly, cafodd ei ddirwyn i ben. | COD - Rhoddwyd y gorau | Yr un yw'r ffeithiau ar gyfer achosion rhif 4 a 5 (isod) er bod dau rif cyfeirnod achos, gan awgrymu fod dwy gŵyn ar wahân wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r un mater. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cynghorydd. Cafwyd y Cyn Aelod yn euog. Cafodd ei ddedfrydu i 7 mlynedd o garchar. | | | | |
| **5.**<br><br>Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 201805958 | 03/03/2023 | Ym mis Rhagfyr 2018, cafodd swyddfa'r Ombwdsmon gŵyn gan Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg bod y Cyn Aelod (a oedd yn dal yn aelod o Gynghorau tref a sir ar y pryd) wedi cael ei gyhuddo o droseddau rhywiol hanesyddol ac, o'r herwydd, gallai fod wedi dwyn anfri ar ei ddau Gyngor ac ar ei swydd fel cynghorydd.<br><br>Cafwyd y Cyn Aelod yn euog. Cafodd ei | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Mae adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu y bydd unigolyn yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei ethol neu rhag bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru os yw unigolyn wedi ei gael yn euog o drosedd ac wedi ei ddedfrydu i garchar (boed wedi ei atal dros dro ai peidio) am 3 mis neu ragor.<br><br>Mae'r Cyn Aelod wedi ei anghymhwyso'n awtomatig rhag bod yn aelod o unrhyw Awdurdod yng Nghymru dan y ddarpariaeth uchod. Gan fod uchafswm y gwaharddiad sydd ar gael i Banel Dyfarnu Cymru eisoes wedi ei bennu, nid oes unrhyw fudd i barhau â'r ymchwiliad. Felly, cafodd ei ddirwyn i ben. | COD - Rhoddwyd y gorau | Yr un yw'r ffeithiau ar gyfer achosion rhif 4 (uchod) a 5 er bod dau rif cyfeirnod achos, gan awgrymu fod dwy gŵyn ar wahân wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r un mater. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddedfrydu i 7 mlynedd o garchar. | | | | |
| 6.<br><br>Cyngor Sir Gaerfyrddin<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202201203 | 30/03/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn hunanatgyfeiriad gan Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") ei fod o bosib wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad. Dywedodd yr Aelod fod aelodau eraill o'r Cyngor wedi ei glywed yn "rhegi" yn ystod sesiwn hyfforddi gan y cyngor.<br><br>Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor, gan gynnwys dolen at recordiad o sesiwn hyfforddi'r Cyngor. Cyfwelwyd tystion. Mewn sylwadau i'r Ombwdsmon, | 4(b) – Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Canfu'r Ombwdsmon fod esboniad yr Aelod am ei sylwadau yn ymddangos yn gredadwy. Er bod yr iaith a ddefnyddiodd yn dilyn ei drafodaeth breifat â'i is-gontractwr yn amharchus, roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu mai sgwrs breifat oedd hon, ac felly ni chafodd ei darbwyllo bod digon o dystiolaeth i awgrymu bod amodau paragraff 4(b) o'r Cod wedi ei dorri.<br><br>Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon fod sylwadau cwbl amhriodol yr Aelod yn cael eu clywed gan aelodau'r Cyngor, swyddogion y Cyngor a oedd yn darparu'r hyfforddiant a'u bod hefyd wedi denu diddordeb sylweddol yn y cyfryngau ac wedi cael eu hadrodd yn eang yn y wasg. Penderfynodd yr Ombwdsmon, o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd anffafriol a oedd yn adrodd ar ymddygiad yr Aelod yn ystod sesiwn hyfforddi'r cyngor, fod sylwadau'r Aelod yn rhai y gellid yn rhesymol eu hystyried fel rhai a oedd wedi | COD - Dim angen gweithredu | Dengys yr achos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam, h.y.<br>(1) Y prawf tystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) Prawf budd y cyhoedd – ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd.<br><br>Argymhellodd OGCC y dylai'r Aelod |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dywedodd yr Aelod ei fod wedi mynychu sesiwn hyfforddi'r Cyngor drwy Zoom a bod rhai wedi ei glywed yn "rhegi". Eglurodd yr Aelod ei fod yn swyddfa ei fusnes preifat pan gymerodd ran yn sesiwn hyfforddi'r Cyngor, nad oedd wedi sylweddoli bod ei feicroffon yn agored, ac yn ystod y sesiwn, cafodd sgwrs ag is-gontractwr a defnyddiodd 'ambell reg'. Dywedodd yr Aelod fod y sylwadau wedi eu cyfeirio at ei is-gontractwr ac nad oeddent wedi eu hanelu at unrhyw aelod o'r Cyngor. Ymddiheurodd am y digwyddiad a chynigiodd ymddiheuro i'r | | dwyn anfri ar y Cyngor ac ar swydd yr Aelod.<br><br>O'r herwydd, canfu'r Ombwdsmon bod sylwadau'r Aelod yn awgrymu bod amodau paragraff 6(1)(a) o'r Cod wedi cael eu torri.<br>Yn wyneb cydnabyddiaeth yr Aelod o natur amhriodol ei weithredoedd a'i edifeirwch, ei hunanatgyfeiriad prydlon i'r Ombwdsmon a'i barodrwydd a'i awydd i ymddiheuro i'r Cyngor, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd er budd y cyhoedd i gamau pellach gael eu cymryd. Fodd bynnag, nododd yr Ombwdsmon, oni bai am weithred ac ymddiheuriad yr aelod, y byddai ymddygiad o'r math hwn wedi croesi trothwy'r Ombwdsmon ar gyfer cyfeirio at y Pwyllgor Safonau. Dywedwyd wrth yr Aelod y dylai ymddiheuro'n gyhoeddus i'r Cyngor yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.<br>O dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad. | | ymddiheuro'n gyhoeddus i'r Cyngor yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor llawn. | | | | |
| **7.**<br><br>Cyngor Cymuned Solfach<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202201039 | 30/03/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("y Cyn Aelod") o Gyngor Cymuned Solfach ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad) Recordiodd y Cyn Aelod fideo ohono'i hun yn cam-drin yr achwynydd ar lafar a llwythodd y fideo hwn i fyny i'w dudalen Facebook cyn ei dynnu oddi yno ychydig oriau yn ddiweddarach. Yn y fideo, gellir gweld y Cyn Aelod yn gwneud honiadau am yr achwynydd a'i ferch. Honnir hefyd iddo wneud sylwadau amhriodol; dywedodd y byddai'r achwynydd wedi | Ystyriodd ymchwiliad yr Ombwdsmon a allai ymddygiad y Cyn Aelod fod wedi torri amodau paragraffau 4(a), 4(b), 4(c), a 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>4(a) -Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd.<br><br>4(b) – Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.<br><br>4(c) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson;<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Mewn sylwadau i'r Ombwdsmon, roedd y Cyn Aelod yn cydnabod bod y sylwadau wedi bod yn amhriodol, er iddo egluro ei sylw bod marwolaeth yr achwynydd yn sylw ar sail ei oed yn hytrach na bygythiad o unrhyw niwed corfforol.<br><br>Derbyniodd yr Ombwdsmon nad oedd y Cyn Aelod yn bwriadu i'r cyfeiriad at farwolaeth yr achwynydd gael ei ddehongli fel bygythiad i'w fywyd. Roedd yr esboniad a roddodd yn gredadwy. Fodd bynnag, roedd y sylw'n cyfeirio at ei oedran a methodd â dangos ystyriaeth i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal, beth bynnag fo'u hoed. Roedd y sylwadau hefyd yn amharchus ac roedd ei weithredoedd yn gyfystyr ag ymddygiad a allai ddwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod gweithredoedd yr aelod yn awgrymu torri amodau paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a).<br><br>Mae'r cyn Aelod wedi ymddiswyddo fel aelod ac | COD - Dim angen gweithredu | Dengys yr achos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam, h.y.<br>(1) Y prawf tystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) Prawf budd y cyhoedd – ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | marw erbyn yr etholiad nesaf a galwodd yr achwynydd yn derm difrïol.<br><br>Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor gan gynnwys cofnodion yn cadarnhau bod y Cyn Aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd tri thyst, gan gynnwys yr achwynydd, eu cyfweld. | | ymddiheurodd yn gyhoeddus ac yn breifat am ei ymddygiad, ac mae'n ymddangos bod yr achwynydd wedi derbyn yr ymddiheuriadau hynny. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod ei weithredoedd wedi mynd i'r afael â'i ymddygiad ac na fyddai cymryd camau pellach er budd y cyhoedd.<br><br>O dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad. | | |
| **8.**<br><br>Cyngor Cymuned St Harmon<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202106161 | 31/03/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod cyn aelod ("y Cyn Aelod") o Gyngor Cymuned St Harmon ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad. | 7(a) – Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall.<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n | Cafodd yr adroddiad ar yr ymchwiliad ei gyfeirio at sylw Llywydd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer penderfyniad gan dribiwnlys. Bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru. | COD - Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | | | |
| **9.**<br><br>Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202105435 | 03/05/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad. | | Cyfeiriodd adroddiad yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. | COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Mae dolen i adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, pan benderfynodd, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023, fynd ymlaen i gynnal gwrandawiad llawn, ar gael yma.<br><br>Ni chynhaliwyd y gwrandawiad eto. |
| **10.**<br><br>Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202105443 | 03/05/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad. | | Cyfeiriodd adroddiad yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Bydd y crynodeb hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. | COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Mae dolen i adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, pan benderfynodd, yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2023, fynd ymlaen i gynnal |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gwrandawiad llawn, ar gael yma.<br><br>Ni chynhaliwyd y gwrandawiad eto. |
| **11.**<br><br>Cyngor Tref Abergele<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202107167 | 15/05/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Abergele ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad oherwydd methiannau wrth weithredu fel Clerc i Fwrdd dan reolaeth y Cyngor hwn a chyngor cyfagos ("y Bwrdd").<br><br>Penodwyd yr Aelod yn Glerc y Bwrdd. Adeg yr apwyntiad, roedd yr Aelod ac aelodau'r Bwrdd o'r farn bod y Bwrdd yn gorff annibynnol. | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Ystyriodd yr ymchwiliad gamau gweithredu'r Aelod a'r Bwrdd drwy adolygu dogfennau a chyfweld tystion perthnasol. Canfu'r ymchwiliad fod y Bwrdd a'r cynghorau sy'n gysylltiedig ag ef i gyd yn gweithredu o dan y camddealltwriaeth ei fod yn gorff annibynnol ac nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw un wedi cymryd camau i ganfod y sefyllfa gyfreithiol gywir.<br><br>Canfu'r ymchwiliad y penodwyd y Clerc drwy broses recriwtio, a bod pawb a oedd yn gysylltiedig o'r farn eu bod yn gymwys i gyflawni'r rôl. Nid oedd y cyfrifon a'r dogfennau'n cael eu cadw'n dda iawn ac er bod gan yr Aelod rywfaint o gyfrifoldeb dros hynny, nid oedd fawr ddim goruchwyliaeth gan y Bwrdd na'r cynghorau cysylltiedig.<br><br>Canfu'r ymchwiliad nad oedd yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd | COD - Dim angen gweithredu | Dengys yr achos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam h.y.<br>(1) Y prawf tystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) Prawf budd y cyhoedd – ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y gŵyn oedd bod yr Aelod wedi methu â chyflawni tasgau gofynnol, honni'n anghywir bod y Bwrdd yn gorff annibynnol, pan nad oedd, a'i fod wedi cymryd cyflog gan y Bwrdd yn amhriodol.<br><br>Roedd y gŵyn yn awgrymu bod y camau hyn wedi arwain at adroddiad beirniadol gan Archwilio Cymru a gafodd effaith negyddol ar enw da'r Bwrdd a'r cynghorau sy'n gysylltiedig ag ef. | | ei swydd fel aelod etholedig pan ymgymerodd â'i rôl fel Clerc, felly nid oedd yr holl God Ymddygiad yn berthnasol. Mae'r cyfrifoldeb dros lywodraethu gwael y Bwrdd yn nwylo pawb sy'n gysylltiedig. Canfuwyd hefyd bod yr Aelod wedi cymryd y cyflog yn ddidwyll ac nad oedd wedi camarwain neb ynghylch ei rôl na'i thâl am y rôl honno.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod yn gyfrifol i raddau helaeth am fethu â sefydlu sefyllfa gyfreithiol y Bwrdd ac y dylai'r Aelod fod wedi gwneud gwaith ymchwil priodol yn gynt. Mae methu â gwneud hynny yn rhoi enw da'r Bwrdd a'r Cyngor mewn perygl ac mae'n awgrymu fod amodau paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad wedi eu torri.<br><br>Er y nodir bod camau gweithredu'r Aelod yn awgrymu bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi cael eu torri, roedd mesurau lliniaru sylweddol wedi codi oherwydd bod pawb a oedd yn gysylltiedig yn gweithredu o dan yr un gred anghywir bod y Bwrdd yn endid ar wahân ac nad oedd | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | neb wedi gofyn am gyngor annibynnol ar y mater hwn. Hyd yn oed pe bai atgyfeiriad at y Pwyllgor Safonau, mae'n ymddangos, o ystyried y mesurau lliniaru, a'r ffaith bod yr Aelod hefyd wedi ymddeol o fywyd cyhoeddus erbyn hyn, ei bod yn annhebygol, hyd yn oed pe bai achos o dorri amodau'r Cod Ymddygiad yn cael ei brofi, y byddai sancsiwn o unrhyw fath yn cael ei roi. Gan hynny, o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, y canfyddiad yw nad oes angen cymryd unrhyw gamau yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt. | | |
| 12.<br><br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202106025 | 28/06/2023 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr Awdurdod") wedi torri amodau Cod Ymddygiad yr Awdurdod ("y Cod"). Honnwyd bod yr Aelod, yn | 4(b) – Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.<br><br>4(c) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson;<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd | Ystyriodd ymchwiliad yr Ombwdsmon a allai ymddygiad yr Aelod fod wedi torri amodau paragraffau 4(b), 4(c), a 6(1)(a) o'r Cod.<br><br>Cafwyd gwybodaeth gan yr Awdurdod, gan gynnwys gohebiaeth a negeseuon ebost perthnasol. Cafwyd recordiad fideo a thrawsgrifiad o gyfarfod perthnasol. Cafwyd gwybodaeth gan dystion hefyd. | COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Ni ddylid defnyddio'r Cod Ymddygiad i lesteirio trafodaeth wleidyddol. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ystod 2 gyfarfod penodol o'r Awdurdod, wedi methu â thrin aelod o staff, un o swyddogion yr Awdurdod, â pharch ac wedi defnyddio ymddygiad y gellid ei ystyried fel bwlio tuag ati. | neu awdurdod. | Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon, o ran cyfarfod cyntaf yr Awdurdod, fod yr Aelod yn teimlo'n rhwystredig gyda'r ffordd y gweinyddwyd y cyfarfod. Cymerodd yr Aelod ran mewn trafodaeth gadarn a mynegodd ei bryderon ynghylch gweinyddiaeth y cyfarfod. Canfu'r Ombwdsmon fod beirniadaeth o'r fath o syniadau a safbwyntiau yn cael ei hystyried yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd. Roedd sylwadau'r Aelod yn wleidyddol eu natur ac felly'n cael mwy o warchodaeth o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn cydnabod y gallai'r aelod o staff fod wedi cael ei siomi gan y feirniadaeth o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r cyfarfod, ond nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod tystiolaeth bod sylwadau'r Aelod yn bersonol nac yn dramgwyddus iawn. Canfu'r Ombwdsmon ar sail y dystiolaeth ac, yn benodol, recordiad fideo'r cyfarfod cyntaf, nad oedd yr Aelod yn arbennig o nerthol nac ymosodol, er ei bod yn amlwg ei fod yn teimlo'n rhwystredig. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sylwadau'r Aelod yn ddigon tramgwyddus, bygythiol neu sarhaus i fod yn gyfystyr â bwlio neu ymddygiad amharchus o fewn ystyr y Cod. O ganlyniad, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod tystiolaeth i awgrymu bod amodau paragraffau 4(b) neu 4(c) o'r Cod wedi cael eu torri.<br><br>Mewn perthynas â'r ail gyfarfod, canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod anghytundeb rhwng yr Aelod a'r aelod o staff ynghylch trefniadau gweithio a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod. Canfu'r Ombwdsmon, ar sail y dystiolaeth, fod sylwadau'r Aelod yn ystod yr ail gyfarfod yn sylwadau gwleidyddol am bolisïau a gweinyddiaeth yr Awdurdod. Canfu'r Ombwdsmon fod sylwadau'r Aelod yn dod o fewn ffiniau rhyddid mynegiant ac nad oeddent yn ddigon tramgwyddus, bygythiol neu sarhaus i fod yn gyfystyr â bwlio neu ymddygiad amharchus o fewn ystyr y Cod. O ganlyniad, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod tystiolaeth i awgrymu bod amodau paragraffau 4(b) neu 4(c) o'r Cod wedi cael eu torri. | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canfu'r Ombwdsmon, yng ngoleuni ei chanfyddiadau uchod, nad oedd tystiolaeth ychwaith i awgrymu bod yr Aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Aelod nac ar ei Awdurdod.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon, o dan adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, nad oedd unrhyw dystiolaeth o fethu cydymffurfio â'r Cod. | | |
| **13.**<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Rhif Cyfeirnod yr Achos 202205954 | 07/09/2023 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Siriol Conwy ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") trwy gymryd rhan a phleidleisio mewn cyfarfod o'r cyngor, a fynychodd yn rhithiol, wrth ymddangos ei fod yn gyrru. | 6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Ystyriodd ymchwiliad yr Ombwdsmon a oedd yr Aelod wedi torri'r cod drwy ddwyn anfri ar ei swyddfa neu ei awdurdod.<br><br>Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor, gan gynnwys cofnodion o gyfarfod perthnasol y Cyngor a fideos o'r digwyddiad a arweiniodd at y gŵyn. Cafwyd gwybodaeth hefyd gan yr Aelod a'r Heddlu.<br><br>Roedd y fideo o gyfarfod cyntaf y Cyngor yn dangos yr Aelod yn gyrru cerbyd wrth gymryd rhan yn y cyfarfod a chydnabu'r Aelod mai dyma oedd yr achos. Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig iddo fynychu pob cyfarfod. | COD - Dim Angen Gweithredu | Dengys yr achos fod OGCC yn parhau i ddefnyddio'r prawf dau gam h.y.<br>(1) Y prawf tystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) Prawf budd y cyhoedd – ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio achos at bwyllgor |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Roedd fideos dilynol yn dangos bod y car naill ai'n llonydd neu fod yr Aelod yn eistedd yn sedd y teithiwr.<br><br>Dywedodd yr Heddlu nad oeddent wedi derbyn cwyn ac na fyddai ymchwilio i'r mater bellach er budd y cyhoedd.<br><br>Nid rôl yr Ombwdsmon yw penderfynu a fyddai gweithredoedd yr aelod wedi bod yn gyfystyr ag ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, nid yw penderfyniad yr Heddlu yn golygu bod gweithredoedd yr Aelod yn cael eu hystyried yn dderbyniol.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon fod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod. Mae'r cyhoedd yn disgwyl yn briodol i aelodau etholedig ymgysylltu'n llawn â busnes y Cyngor ac roedd mynychu cyfarfod wrth yrru cerbyd yn dangos barn wael ac roedd ganddo'r potensial i ddwyn anfri ar y Cyngor.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod tystiolaeth o un digwyddiad lle'r oedd yr Aelod yn gyrru ac yn rhyngweithio â'r cyfarfod, ac nad | | safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd.<br><br>Bydd cofnod o benderfyniad OGCC yn cael ei gadw a chaiff ei ystyried os bydd yr Aelod yn ymddwyn mewn ffordd debyg yn y dyfodol. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | oedd yn ymddangos ei fod yn arwydd o ymddygiad ailadroddus. Mae'r fideos dilynol yn dangos yr aelod yn y sedd y teithiwr neu mewn cerbyd llonydd yn awgrymu nad oedd yr Aelod wedi ailadrodd yr ymddygiad a'i fod wedi dysgu o'r gŵyn hon.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon, er bod gweithredoedd yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod, nad oedd wedi ailadrodd yr ymddygiad ers hynny, ac roedd diffyg ymchwiliad troseddol yn golygu na fyddai cymryd camau pellach er budd y cyhoedd<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.<br><br>Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gadw ar gofnod ac yn cael ei ystyried os bydd unrhyw ymddygiad tebyg gan yr Aelod yn y dyfodol. | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 14 Mehefin 2023.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod;

   ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/014/2022-023/CT: Cynghorydd Steve Davies

APW/013/2022-023/CT: Cyn Gynghorydd Karen Laurie-Parry

APW/001/2023-024/CT: Cyn Gynghorydd Donald Jenkins

APW/015/2022-023/CT: Cyn Gynghorydd Chris Evans

### 2.2 Apeliadau a benderfynwyd

Dim wedi eu cyhoeddi.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau o'r achosion.

**Atodiad 1**

## Crynodeb o'r Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru - Mehefin i Dachwedd 2023

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **1.**<br><br>APW/014/2022-023/CT: Cynghorydd Steve Davies | Mewn llythyr dyddiedig 20fed Mawrth 2023, derbyniodd Panel Dyfarnu Cymru atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru mewn perthynas â chyhuddiadau yn erbyn y Cyng. Steve Davies. Honnwyd bod y Cyng. Davies wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth drwy beidio â chydymffurfio â pharagraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod.<br><br>Roedd y cyfeiriad i'r Panel gan OGCC drwy lythyr dyddiedig 20fed Mawrth 2023 yn cynnwys adroddiad interim a oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gŵyn a wnaed i OGCC gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion ar y 9fed o Ragfyr 2021, a digwyddiadau pellach a oedd wedi dod i'r amlwg ac a oedd yn destun ymchwiliad gan OGCC.<br><br>At ei gilydd roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr honiadau canlynol yn awgrymu bod y Cod wedi cael ei dorri;<br><br>Honiad 1: - Ym mis Hydref 2020 | Roedd gofyn i'r Tribiwnlys Achos Interim, yn unol ag adran 76(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ystyried y canlynol;<br>(A) Ydi'r dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol?<br>(B) Ydi natur y methiant yn debygol o arwain at ei anghymwyso o dan adran 79(4)(b)?<br>(C) A ddylid gwahardd y person hwnnw ar unwaith neu'i wahardd yn rhannol er budd y cyhoedd?<br><br>Ydi'r dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol?<br>Mae cofnod y penderfyniad yn nodi: mae'n bwysig iawn nodi, ac mae'r Tribiwnlys Achos Interim wedi atgoffai'i hun ynglŷn â hyn, bod ystyried a ydi'r dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, yn fater gwahanol i benderfynu, yn seiliedig ar y ffeithiau, bod achos o dorri'r Cod Ymddygiad wedi digwydd. Nid yw'r Tribiwnlys Achos Interim yno i gadarnhau'r honiadau ai peidio. Y Tribiwnlys Achos fydd yn gwneud hynny maes o law. Nid yw'n ofynnol, ac nid yw'r Tribiwnlys Achos Interim wedi, gwneud unrhyw ganfyddiadau ffeithiol i gadarnhau'r honiadau ai peidio.<br><br>Honiad 1:<br>Roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn fodlon bod y dystiolaeth *prima facie*, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth yn Adroddiad Interim OGCC, yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b),4(c), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r honiad cyntaf.<br><br>Honiad 2:<br>Roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn fodlon bod y dystiolaeth *prima facie*, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth yn Adroddiad Interim OGCC, | Paragraffau perthnasol yn y Cod Ymddygiad:<br><br>Mae paragraff 4(b) yn nodi "Rhaid i chi drin eraill â pharch ac ystyriaeth."<br><br>Mae paragraff 4(c) yn nodi "Ni ddylech fwlio nac aflonyddu unrhyw un."<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn nodi "Ni ddylech – (a) ymddwyn mewn ffordd y gellid yn ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod:<br><br>Mae paragraff 7(a) yn nodi "Ni ddylech – yn rhinwedd eich rôl swyddogol neu fel arall (a) ddefnyddio, na cheisio defnyddio, eich swydd fel aelod yn amhriodol er eich mantais neu anfantais eich hun nac unrhyw berson arall."<br><br>Penderfyniad:<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos Interim y dylid |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 56 | derbyniodd y Cyngor gŵyn yn honni bod yr Ymatebydd wedi ymweld â gwraig weddw fregus ar sawl achlysur (Ms A) i gynnal 'archwiliad lles' er nad oedd yn byw yn ei Ward ef ac er ei bod wedi gofyn iddo beidio ag ymweld â hi. Dywedodd Ms A nad oedd yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol a'i bod ofn yr Ymatebydd am ei bywyd. Cafodd y Swyddog Monitro air â'r Ymatebydd.<br><br>Honiad 2: - Ym mis Tachwedd 2020 derbyniodd y Cyngor atgyfeiriad gan yr Heddlu a oedd yn awgrymu bod aelod o'r cyhoedd (Ms B) wedi cwyno bod yr Ymatebydd yn ei haflonyddu. Doedd Ms B ddim yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, ond cafodd yr Heddlu air â'r Ymatebydd.<br><br>Honiad 3 :- Ym mis Mawrth 2021 honnwyd bod yr Ymatebydd wedi gwneud sylwadau rhywiol amhriodol a sarhaus wrth aelod staff (Ms C) a gwirfoddolwr (Ms D) mewn hwb cymunedol lle'r oedd ef hefyd yn gwirfoddoli. Cynghorwyd yr Ymatebydd nad oedd croeso iddo yn yr hwb mwyach. Nid oedd Ms C a Ms D yn teimlo'n gyfforddus rhoi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad oherwydd bod yr Ymatebydd yn gynghorydd ac | yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b),4(c) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r ail honiad. Mae'r Tribiwnlys Achos Interim wedi nodi ym mharagraff 6.4 a 6.4.1 yn y cofnod bod y dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn perthynas â'r honiad hwn ac na wnaeth yr Ymatebydd wadu bod yr ymddygiad yr achwynwyd yn ei gylch wedi digwydd.<br><br>Honiad 3:<br>Roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn fodlon bod y dystiolaeth *prima facie*, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth yn Adroddiad Interim OGCC, yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b),4(c), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r trydydd honiad. Mae'r Tribiwnlys Achos Interim wedi nodi ym mharagraff 6.5 a 6.5.1 yn y cofnod bod y dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn perthynas â'r honiad hwn.<br><br>Honiad 4:<br>Roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn fodlon bod y dystiolaeth *prima facie*, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth yn Adroddiad Interim OGCC, yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b),4(c), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r pedwerydd honiad. Mae'r Tribiwnlys Achos Interim wedi nodi ym mharagraff 6.6 a 6.6.1 yn y cofnod bod y dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn perthynas â'r honiad hwn.<br><br>Honiad 5:<br>Roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn fodlon bod y dystiolaeth *prima facie*, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth yn Adroddiad Interim OGCC, yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b),4(c), 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r pumed honiad. Mae'r Tribiwnlys Achos Interim wedi nodi ym mharagraff 6.7 a 6.7.1 a 6.7.2 yn y cofnod bod y dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri mewn perthynas â'r honiad | **gwahardd yr Ymatebydd rhag bod neu ddod yn aelod neu aelod cyfetholedig o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth am gyfnod o hyd at chwe mis neu (os yw'n fyrrach) weddill tymor yr Ymatebydd yn y swydd o'r 10fed o Orffennaf 2023, sef dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad.**<br><br><u>Pwynt dysgu:</u><br><br>Mae Adran 72(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn rhoi'r awdurdod i OGCC gynhyrchu adroddiad interim lle bo hynny'n briodol ym marn yr Ombwdsmon ac er budd y cyhoedd, cyn i'r Ombwdsmon gwblhau ei ymchwiliad o dan adran 69.<br><br>Dyma'r gwaharddiad interim cyntaf o dan y ddarpariaeth hon.<br><br>Mae gan yr Ymatebydd yr |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 57 | oherwydd ei fod yn byw wrth eu hymyl. Dywedodd un o'r dioddefwyr honedig, Ms C, bod hyn yn batrwm o ymddygiad gan yr Ymatebydd na aethpwyd i'r afael ag o.<br><br>Honiad 4 : - Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd ddynes, Ms E, wybod i'r Heddlu bod yr Ymatebydd, ers Mawrth 2020, wedi bod yn ymweld â hi yn ei chartref er nad oedd yn dymuno iddo wneud hynny a bod yr ymweliadau hyn wedi digwydd gyda'r nos yn ogystal. Cofnodwyd hyn fel achos o ystelcio gan yr Heddlu a chawsant air â'r Ymatebydd. Nid oedd hon yr un ddynes â'r ddynes yn honiad 1 uchod.<br><br>Honiad 5 : - Ym mis Ionawr 2023 derbyniodd yr Heddlu gŵyn bod yr Ymatebydd wedi bod yn aflonyddu ac ystelcio dynes iau o lawer (Ms F). Nid oedd Ms F yn dymuno parhau â'r gŵyn ond cafodd yr Heddlu air â'r Ymatebydd a chofnodwyd y digwyddiad fel achos o ystelcio. | hwn.<br><br>Felly, penderfynodd y Tribiwnlys Achos Interim yn unfrydol bod y dystiolaeth *prima facie* yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod mewn perthynas â'r pum honiad hwn.<br><br><u>Ydi natur y methiant yn debygol o arwain at ei anghymwyso o dan adran 79(4)(b)?</u><br>Nododd y Tribiwnlys Achos Interim mai prif ddiben y gyfundrefn gosbau yw cynnal y safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chynnal hyder mewn democratiaeth leol. Gan ystyried yr holl faterion hyn, roedd y Tribiwnlys Achos Interim yn derbyn sylwadau OGCC (sydd wedi'u crynhoi yn 7.1 a 7.2 yng nghofnod y penderfyniad) a daeth i'r casgliad bod y methiant honedig i ddilyn y Cod Ymddygiad yn debygol o arwain at waharddiad yn unol ag adran 79(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 os oes canfyddiadau ffeithiol i'w cadarnhau.<br><br><u>A ddylid gwahardd y person hwnnw ar unwaith neu'i wahardd yn rhannol er budd y cyhoedd?</u><br>Mae adran 78(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi bod rhaid i dribiwnlys achos interim, sy'n ystyried materion a nodwyd mewn adroddiad interim gan OGCC, ddod i un o'r casgliadau a ganlyn; (a) ni ddylai'r person sydd wedi'i gyhuddo (yr Ymatebydd) gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol neu (b) dylai'r person sydd wedi'i gyhuddo (yr Ymatebydd) gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol am gyfnod o hyd at chwe mis neu (os yw'n fyrrach) weddill tymor y person yn y swydd. | hawl i ofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad uchod. |
| **2.**<br><br><u>APW/013/2022-023/CT:</u> | Mewn llythyr dyddiedig 22 Chwefror 2023, derbyniodd Panel Dyfarnu Cymru atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") mewn perthynas â | Mae cofnod y penderfyniad yn nodi bod yr Ymatebydd, rhwng 2019 a 2022, wedi anfon nifer fawr o e-byst at nifer o wahanol dderbynyddion yn rheolaidd. Er bod pob math o bethau'n cael eu trafod, roedd y materion hyn yn ymwneud yn benodol â;<br>• Bronllys | <u>Paragraffau perthnasol yn y Cod Ymddygiad:</u><br><br>Paragraff 4 (b) ac (c); "Rhaid i chi- (b) drin eraill â pharch ac ystyriaeth; (c) |

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|
| <u>Cyn Gynghorydd Karen Laurie-Parry</u> | honiadau yn erbyn yr Ymatebydd. Honnwyd ei bod wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Powys drwy wneud honiadau niferus, di-sail, o lygredd a chamymddygiad a'i bod wedi gohebu mewn modd eithafol ac afresymol ac yn groes i'r cyfyngiadau a oedd wedi'u gosod arni. | • Y Gaer<br>• The Heart of Wales Property Service ('HOWPS').<br><br>Derbyniodd OGCC gŵyn gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys ym mis Mai 2021 oherwydd cynnwys a nifer yr ohebiaeth a anfonwyd gan y Cynghorydd.<br><br>Derbyniwyd cwyn arall ym mis Gorffennaf 2021 oherwydd ymddygiad y Cynghorydd yn ystod cyfarfod o'r Cyngor yn gynharach yn y mis.<br><br>Ar sail canfyddiadau ffeithiol, canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol bod yr Ymatebydd wedi methu â chydymffurfio â'r paragraffau canlynol o Gòd Ymddygiad Cyngor Sir Powys:<br><br>(i) Paragraff 4 (b) a (c);<br>Ni ddylai swyddogion wynebu sylwadau diangen a all niweidio eu henw da neu effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau neu danseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth.<br>Roedd yr Ymatebydd yn gohebu'n rheolaidd, ac roedd yr ohebiaeth yn cynnwys gwybodaeth anghywir a rhethreg bersonol a niweidiol yn ymwneud ag uniondeb a phroffesiynolrwydd uwch swyddog.<br>Barnwyd bod ymddygiad ailadroddus yr Ymatebydd gyfystyr â bwlio.<br>Roedd y Panel o'r farn bod yr Ymatebydd wedi mynd â phethau'n rhy bell a bod Mr Brinn wedi wynebu ymddygiad a oedd y tu hwnt i'r disgwyliad y dylai rhywun yn ei rôl ef (fel Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a Chyfarwyddiaeth Amgylcheddol y Cyngor Sir) gael 'croen trwchus', ac roedd yr effaith ar Mr Brinn yn amlwg o ddarllen ei ddatganiad tyst.<br>Roedd y Panel o'r farn bod yr Ymatebydd wedi ymddwyn mewn modd a oedd yn groes i baragraff 4.<br><br>(ii) Paragraff 5 (a);<br>Roedd y Tribiwnlys yn fodlon bod yr Ymatebydd wedi mynd yn groes i baragraff 5 (a) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â thri gwahanol | ni ddylech fwlio nac aflonyddu unrhyw un;"<br><br>Paragraff 5 (a); "Ni ddylech- (a) Ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth ystyried yn rhesymol ei bod o natur gwybodaeth, heb ganiatâd penodol unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai bod yn rhaid i chi wneud hynny o dan y gyfraith;"<br><br>Paragraff 6 (1)(a) a (d); "(1) Ni ddylech –<br>(a) ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;<br>(d) wneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod."<br><br>Paragraff 7 (b)(i) a (iv); "Ni ddylech –<br>(b) ddefnyddio adnoddau eich awdurdod, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio; |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 59 | | ddigwyddiad.<br>• Anfonodd adroddiad gan y Prisiwr Rhanbarth ymlaen at nifer o wahanol bobl, yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol. Roedd wedi derbyn copi o'r adroddiad ar yr amod y byddai'n ei drin yn 'gyfrinachol'.<br>• Yn ei rôl fel cynghorydd, derbyniodd e-bost ynglŷn â lladrad a oedd wedi'i ddisgrifio fel e-bost 'sensitif' a 'chyfrinachol'. Fe anfonodd gwestiynau dros e-bost at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan ei bod hi'n "amlwg yn meddwl bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu yr un fath", yn ogystal â staff eraill y Cyngor a oedd heb dderbyn yr ohebiaeth wreiddiol.<br>• Fe wnaeth yr Ymatebydd ddatgelu gwybodaeth heb awdurdod ynglŷn ag iechyd meddwl ei chynrychiolydd undeb llafur (ac un o weithwyr y Cyngor). Roedd hyn yn "ddiawdurdod ac ansensitif a dylai'r wybodaeth fod wedi cael ei hystyried yn wybodaeth bersonol, a chyfrinachol, er nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â busnes y Cyngor".<br><br>(iii) Paragraff 6 (1)(a)<br>Ystyriodd y Tribiwnlys Ganllawiau'r Ombwdsmon sy'n nodi bod 'beirniadaeth annheg neu anghywir o'r awdurdod mewn arena gyhoeddus' yn enghraifft o ymddygiad a ddaw o dan y paragraff hwn. Roedd y Tribiwnlys yn cytuno bod yr Ymatebydd wedi mynd yn groes i'r ddarpariaeth hon;<br><br>(iv) Paragraff 6 (1)(d);<br>Ym marn y Tribiwnlys roedd ymddygiad yr Ymatebydd, yn enwedig mewn perthynas â'i phryderon parhaus am Mr Brinn, yn "fwriadol a/neu drallodus".<br><br>(v) Paragraff 7 (b) (i) a (iv);<br>Nid oedd y Tribiwnlys yn fodlon bod yr honiad o fynd yn groes i baragraff 7 wedi'i gadarnhau. Ystyriodd y Tribiwnlys y geiriad yn y Cod ac yng Nghanllawiau OGCC mewn perthynas â "a oedd y | (i) yn annoeth;<br>(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi"<br><br><u>Penderfyniad:</u><br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol y dylid **gwahardd yr Ymatebydd rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000 am gyfnod o 18 mis.**<br><br><u>Pwynt dysgu:</u><br><br>Wrth ddehongli'r Cod Ymddygiad, nid oedd PDC o'r farn bod Dirprwy Swyddog Monitro neu Brif Swyddog yn 'adnodd' a 'ddefnyddiwyd' o fewn ystyr paragraff 7 (b) (i) a (iv) o'r Cod. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 60 | | paragraffau hynny yn y Cod Ymddygiad wedi'u gweithredu'n gywir yn achos ymddygiad yr Ymatebydd". A oes modd i Ddirprwy Swyddog Monitro neu Brif Weithredwr fod yn 'adnodd' a 'ddefnyddiwyd' yng nghyd-destun y paragraffau hyn?"<br><br>→Ffactorau Gwaethygol:<br>• Bod yr Ymatebydd wedi methu â newid ei hymddygiad er ei bod wedi derbyn sawl rhybudd a chyngor gan uwch swyddogion, yn cynnwys y Swyddog Monitro a'r Prif Weithredwr;<br>• Bod ei hymddygiad wedi rhoi Mr Brinn dan anfantais bersonol yn benodol, boed hynny'n fwriadol ai peidio;<br>• Bod yr Ymatebydd wedi camddefnyddio'r ymddiriedaeth a roddwyd iddi fel cynghorydd drwy dorri cyfrinachedd;<br>• Bod yr Ymatebydd wedi ymddwyn fel hyn fwy nag unwaith a'i bod yr ymddygiad wedi para am fisoedd lawer;<br>• Roedd yn ymddangos fel petai ganddi agenda personol. Doedd dim llawer o dystiolaeth ei bod yn mynd ar ôl pryderon a oedd wedi cael eu codi gan etholwyr.<br><br>→Ffactorau Lliniarol:<br>• Amgylchiadau personol yr Ymatebydd, yn cynnwys ei hiechyd corfforol a meddwl;<br>• Hanes blaenorol o wasanaeth da;<br>• Y ffaith ei bod wedi cydweithio â'r Ombwdsmon yn ystod yr ymchwiliad; | |
| **3.**<br><br>APW/001/2023-024/CT: Cyn Gynghorydd Donald Jenkins | Trwy lythyr ac Adroddiad dyddiedig 23 Mawrth 2023, fe wnaeth OGCC atgyfeiriad i PDC mewn perthynas â honiadau yn erbyn yr Ymatebydd. Roedd yr honiadau yng nghyd-destun Adroddiad gan Archwilio Cymru ('AC') dyddiedig Hydref 2021 a oedd yn feirniadol o'r Awdurdod Perthnasol yn | Roedd Adroddiad OGCC yn amlinellu'r pedwar ffaith berthnasol a ganlyn a oedd yn destun dadl: -<br>1. A wnaeth yr Ymatebydd greu ac arddangos hysbysiad tendro yn y gymuned ar gyfer ailwampio'r cysgodfannau bysiau?<br>2. A oedd yr hysbysiad tendro a ddarparwyd i AC gan Ms West yn gopi o'r hysbysiad tendro gwirioneddol a oedd wedi'i arddangos gan yr Ymatebydd?<br>3. A wnaeth yr Ymatebydd gamarwain AC mewn perthynas â'r hysbysiad tendro ar gyfer ailwampio'r cysgodfannau bysiau? | Paragraffau perthnasol yn y Cod Ymddygiad:<br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn nodi "Ni ddylech – (a) ymddwyn mewn ffordd y gellid yn ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 61 | gyffredinol, yn ogystal ag unigolion penodol, yn cynnwys y cyn Glerc, Ms West, yr Archwilydd Mewnol, a'r Ymatebydd. Tra bo adroddiad AC yn nodi anghysondebau o ran llywodraethiant a phrosesau ariannol, mae adroddiad OGCC yn canolbwyntio ar faterion cul a phenodol sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad AC. Yn ystod cyfweliad yr Ymatebydd, fe'i gwnaed yn glir gan gynrychiolydd OGCC; '...er bod adroddiad Archwilio Cymru'n delio â phob math o wahanol bynciau, bydd y cyfweliad hwn yn delio â'r ddau honiad penodol yn unig...'<br><br>Roedd Adroddiad OGCC yn cynnwys yr honiadau a ganlyn; -<br>1. Mewn perthynas â hysbysiad tendro penodol ar gyfer ailwampio cysgodfannau bysiau a datganiad blynyddol a llywodraethiant diwygiedig ('ARGS'), bod yr Ymatebydd wedi ceisio camarwain AC. Mae OGCC yn honni ei fod wedi gwneud hynny er mwyn celu llywodraethiant gwael yn yr Awdurdod Perthnasol ac i leihau'r feirniadaeth gan AC ynglŷn â'i ymddygiad ef ei hun. Mae OGCC yn honni bod yr Ymatebydd wedi gwneud hynny er ei les ef ei hun er mwyn creu | 4. A wnaeth yr Ymatebydd gamarwain AC ynghylch p'un ai a oedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r ARGS yn dilyn ei ddiwygio yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mehefin 2019?<br><br>Fe ystyriodd y Tribiwnlys Achos y ffeithiau perthnasol yn ôl y drefn ganlynol.<br>1. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad nad oedd yr Ymatebydd wedi creu ac arddangos hysbysiad tendro yn y gymuned ar gyfer ailwampio'r cysgodfannau bysiau.<br>2. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad nad oedd y copi o'r hysbysiad tendro ar gyfer ailwampio'r cysgodfannau bysiau a ddarparwyd i AC gan Ms West yn gopi o'r hysbysiad gwirioneddol honedig.<br>3. Daeth y tribiwnlys Achos i'r casgliad bod yr Ymatebydd, at ei gilydd, wedi ceisio camarwain Archwilio Cymru mewn rhai ffyrdd mewn perthynas â'r hysbysiad tendro ar gyfer ailwampio'r cysgodfannau bysiau.<br>4. Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad bod yr Ymatebydd, at ei gilydd, wedi ceisio camarwain AC mewn perthynas â p'un ai a oedd yr ARGS wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn ei ddiwygio yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mehefin 2019.<br><br><u>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynglŷn â'r honiad o fynd yn groes i baragraff 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad:</u><br>Y cwestiwn cyntaf yr oedd yn rhaid i'r Tribiwnlys Achos ddod i benderfyniad yn ei gylch oedd p'un ai a oedd y canfyddiad bod yr Ymatebydd wedi ceisio camarwain AC mewn perthynas â'r tendr cysgodfannau bysiau a'r ARGS wedi dwyn anfri ar yr Awdurdod. Yr ail oedd p'un ai a oedd yr Ymatebydd wedi ceisio defnyddio ei statws i osgoi anfantais iddo'i hun. Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol bod ymddygiad yr Ymatebydd yn groes i Baragraff 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad.<br><br><u>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos o ran cosb yr unigolyn.</u> | awdurdod:<br><br>Mae paragraff 7(a) yn nodi "Ni ddylech – yn rhinwedd eich rôl swyddogol neu fel arall ddefnyddio, na cheisio defnyddio, eich swydd fel aelod yn amhriodol er eich mantais neu anfantais eich hun nac unrhyw berson arall."<br><br><u>Penderfyniad:</u><br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol y dylid **gwahardd yr Ymatebydd rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000 am gyfnod o 15 mis.**<br><br><u>Pwynt dysgu:</u><br><br>Mae'r Cofnod penderfyniad yn nodi bod yr Ymatebydd wedi dweud "*Mae'n siŵr y byddai wedi bod y beth doeth gofyn am gyngor*." Anogir Aelodau i |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 62 | mantais neu osgoi anfantais iddo'i hun fel bod canfyddiadau ymchwiliad AC yn cael llai o effaith ar ei enw da fel Cadeirydd yr Awdurdod Perthnasol. Roedd OGCC o'r farn bod ymddygiad yr Ymatebydd yn awgrymu ei fod wedi mynd yn groes i baragraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad.<br>2. Mynychodd y wasg a'r cyhoedd gyfarfod o'r Awdurdod Perthnasol ar 3 Tachwedd 2021 lle ystyriwyd Adroddiad AC. Roedd OGCC yn honni bod cryfder barn y cyhoedd a'r cyhoeddusrwydd yn dilyn y cyfarfod yn awgrymu bod yr Ymatebydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor a/neu ei swydd fel Cynghorydd. Roedd OGCC o'r farn bod ymddygiad yr Ymatebydd yn awgrymu ei fod wedi mynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. | Aeth y Tribiwnlys Achos ymlaen i ystyried y gosb a fyddai'n cael ei phennu. Wrth wneud hynny, fe ystyriodd yr holl ffeithiau a'r dystiolaeth. Cyfeiriodd hefyd at ganllawiau cyfredol PDC ar y gyfundrefn gosbau. Nododd ddiben y gyfundrefn gosbau a oedd hefyd wedi'i amlygu yn y dogfennau a gyflwynwyd gan OGCC. Ystyriodd brif ddiben y gyfundrefn cosbau yn ogystal sef "cynnal y safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a chynnal hyder mewn democratiaeth leol." Fe wnaeth y Tribiwnlys hefyd ystyried y dull pum cam sy'n cael ei hyrwyddo yn y Canllawiau.<br><br>→<u>Ffactorau Lliniarol</u><br>1. Eithaf newydd i'r swydd a dim llawer o brofiad fel Cadeirydd.<br>2. Hanes blaenorol o wasanaeth da. Rhoddodd y Cofrestrydd wybod i'r Tribiwnlys Achos nad oedd unrhyw achos blaenorol o dorri'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Ymatebydd.<br>3. Er bod mwy nag un enghraifft o roi atebion a gwybodaeth gamarweiniol, roedd yr achosion yn gysylltiedig â'r un broses ymchwilio gan AC.<br>4. Fe wnaeth yr Ymatebydd gydweithio â swyddog ymchwilio OGCC drwy fynychu cyfweliad, ac ymateb i gwestiynau OGCC.<br><br>→<u>Ffactorau Gwaethygol</u><br>1. Roedd yr Ymatebydd mewn swydd â chyfrifoldebau ac ymddiriedaeth uwch ar yr adeg.<br>2. Er bod yr wybodaeth gamarweiniol yn deillio o broses ymchwilio AC, roedd yr ymatebion camarweiniol yn awgrymu patrwm ymddygiad, lle'r oedd yr Ymatebydd wedi cael digon o gyfle i roi gwybodaeth gywir.<br>3. Roedd darparu gwybodaeth gamarweiniol yn awgrymu elfen o dwyll.<br>4. Roedd yn ymddangos fel petai diffyg dealltwriaeth neu fethiant i dderbyn yr ymddygiad camarweiniol a'r canlyniadau.<br>5. Roedd yr ymddygiad naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid ac nid | ofyn am gyngor a mynychu hyfforddiant, os oes angen. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | oedd yn poeni rhyw lawer, os o gwbl, am y Cod.<br>6. Roedd yr Ymatebydd yn dal i wadu'r ffeithiau er bod y dystiolaeth yn glir. Ychydig iawn o edifeirwch oedd ganddo am y modd yr oedd wedi ymddwyn, ac nid oedd yn gweld dim o'i le ar newid ei stori er mwyn celu gwallau ariannol a chaffael. | |
| **4.**<br><br><u>APW/015/2022-023/CT: Cyn Gynghorydd Chris Evans</u><br><br>Tudalen 63 | Roedd adroddiad ac atgyfeiriad OGCC i PDC dyddiedig 20 Mawrth 2023 yn amlinellu'r honiad canlynol yr oedd gofyn i'r Tribiwnlys Achos ei ystyried.<br><br>Honnwyd bod yr Ymatebydd wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r Cyngor drwy bledio'n euog a'i gael yn euog o'r drosedd o lithio ("*soliciting*"). Bu i OGCC nodi natur y drosedd rywiol, a oedd yn groes i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, a'r cyhoeddusrwydd o amgylch yr euogfarn, a oedd yn cyfeirio at y Cyngor a rôl yr Ymatebydd fel aelod etholedig. Dywedodd OGCC bod hyn yn awgrymu bod ymddygiad yr Ymatebydd wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r Cyngor a bod ei ymddygiad yn groes i baragraff 6(1)(a) o Gòd Ymddygiad y Cyngor Perthnasol. | <u>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynglŷn â'r honiad o fynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.</u><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn bod natur yr euogfarn o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ynghyd â'r cyhoeddusrwydd sylweddol, lle cyfeiriwyd at y Cyngor a rôl yr Ymatebydd fel aelod etholedig, wedi adlewyrchu'n ddrwg ar yr unigolyn a'i rôl ac wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r Cyngor. Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol bod yr Ymatebydd wedi mynd yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod.<br><br>→<u>Ffactorau Lliniarol</u><br>• Hanes blaenorol o wasanaeth da dros gyfnod hir. Roedd yr Ymatebydd wedi disgrifio'r digwyddiad fel moment o wallgofrwydd a cholli pob synnwyr cyffredin.<br>• Roedd y camymddygiad yn ddigwyddiad unwaith yn unig.<br>• Cadarnhad gan yr Ymatebydd ei fod wedi rhoi ei lwfans Cynghorydd at achos da yn dilyn yr euogfarn a'r ddedfryd.<br><br>→<u>Ffactorau Gwaethygol</u><br>• Oherwydd ei wasanaeth hir a'i safle yn y gymuned fe ddylai'r Ymatebydd fod wedi bod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'r pwyslais ar atebolrwydd.<br>• Roedd wedi methu â chymryd cyfrifoldeb dros ei ymddygiad ac nid oedd yn difaru'r camymddygiad a'r canlyniadau. Nid oedd yr Ymatebydd wedi sylweddoli faint o effaith y byddai ei ymddygiad, yr euogfarn a'r cyhoeddusrwydd yn ei gael ar ei rôl a'r Cyngor. Yn ei farn ef doedd ganddo ddim rheolaeth dros yr effaith a gafodd y digwyddiad ar ei rôl ac ar y Cyngor.<br>• Ymddygiad di-hid a heb roi boeni rhyw lawer, os o gwbl, am y | <u>Paragraff perthnasol yn y Cod Ymddygiad:</u><br><br>Mae paragraff 6(1)(a) yn nodi "Ni ddylech – (a) ymddwyn mewn ffordd y gellid yn ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod:<br><br><u>Penderfyniad:</u><br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol y dylid **gwahardd** yr Ymatebydd rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000 **am gyfnod o 9 mis.**<br><br><u>Pwynt dysgu:</u><br>Mae rhai euogfarnau troseddol penodol yn arwain at waharddiad |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | Cod a'r gyfundrefn safonau moesegol yng Nghymru, er ei fod wedi derbyn hyfforddiant manwl yn 2018 a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd 'Adfer hyder y cyhoedd a safonau moesegol uchel mewn gweinyddiaeth gyhoeddus'.<br>• Diffyg edifeirwch neu ymddiheuriad o ran yr effaith a gafodd ei ymddygiad ar ei rôl fel aelod etholedig a'r Awdurdod Perthnasol. | awtomatig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd. |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad unrhyw gais am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14.06.2023** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol o dan y cod ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r cod ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 12(2) yn y Cod.

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Cod o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

## 2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn o Gyngor ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Rhannwyd y nodiadau briffio hyn fel rhan o'r wybodaeth a gynhwyswyd yn Newyddlenni'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau Cyngor Tref/Cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS Y CYFARFOD DIWETHAF AR 14.06.2023

3.1 <u>Gwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 3 Hydref 2023.</u>

3.1.1 Cynhaliwyd Gwrandawiad o'r Panel Caniatâd Arbennig ar 3 Hydref 2023 i ystyried cais gan Gynghorydd Cymuned.

3.1.2 Trafodwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn ystod y gwrandawiad hwn ac roedd y wasg a'r cyhoedd wedi cael eu cau allan. Gellir gweld y prawf budd y cyhoedd, a gytunwyd gan y Panel, yma.

3.1.3 Ynghlwm yn **Atodiad 1** mae cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig.

3.1.4 Ar ôl cytuno fod gan y Cynghorydd Cymuned ddiddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â'r mater y byddai'r Cyngor Cymuned yn ei drafod, penderfynodd Panel y Pwyllgor Safonau roi caniatâd arbennig cyfyngedig i'r Cynghorydd Cymuned, a oedd yn caniatáu iddo:

- ysgrifennu at swyddogion a'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor Cymuned am y mater, heb unrhyw amodau;
- siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth / pleidlais ar y mater; a
- os yw'n berthnasol, cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran.

3.1.5 Ni chaniateir i'r Cynghorydd bleidleisio.

3.1.6 Rhoddwyd y caniatâd arbennig ar sail seiliau statudol (d), (e), (f) ac (i) yn y ddeddfwriaeth Saesneg, sy'n cael eu nodi fel seiliau (ch), (d), (f) a (ff) yn y fersiwn Gymraeg o'r ddeddfwriaeth.

3.1.7 Daw'r caniatâd arbennig i ben ar ddiwedd tymor presennol y Cynghorydd fel aelod o'r Cyngor Cymuned, ar yr amod bod y Cynghorydd yn parhau yn ei rôl fel Cadeirydd, gan gynnwys os yw'n cael ei ailethol fel Cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd a'r sail a'r amgylchiadau dros ei ganiatáu.

4.2 Bod aelodau'r Panel yn unig (John R Jones, Rhys Davies a Margaret Thomas) yn cadarnhau/diwygio'r cofnodion drafft sydd ynghlwm yn **Atodiad 1**.

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (O'R PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2023

**YN BRESENNOL :** **Aelodau Annibynnol**

Mr John R Jones (Cadeirydd)

Mr T Rhys Davies (Is-gadeirydd)

**Yn Cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Cyngor Cymuned - Margaret Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cyngor Cymuned – Iorwerth Roberts

**WRTH LAW:** Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY), Swyddog Pwyllgor (MEH)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

2. **CAU ALLAN Y WAS A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod cais am ganiatâd arbennig yn cael ei wneud gan y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran er mwyn ei alluogi i gymryd rhan, yn ei gapasiti fel Cadeirydd y Cyngor Cymuned, mewn perthynas â mater cynhennus a oedd i'w drafod gan y Cyngor Cymuned.

Ar ôl clywed cefndir y cais am ganiatâd arbennig gan yr ymgeisydd, cynhaliodd y Panel sesiwn breifat er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd

arbennig ai peidio ac os y byddai caniatâd arbennig yn cael ei roi, ystyried (i) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig a (ii) a oedd unrhyw gyfyngiadau/ amodau yn cael eu gosod.

**PENDERFYNWYD rhoi caniatâd arbennig rhannol i'r Cynghorydd Iorwerth Roberts yn ei gapasiti fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran o ran y buddiannau y cyfeiriwyd atynt yn y cais. Mae'r caniatâd arbennig rhannol yn caniatáu'r Cynghorydd i:-**

- **Ysgrifennu at Swyddogion a'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r mater**
- **Siarad â Swyddogion y Cyngor Cymuned am y mater, heb unrhyw amodau;**
- **Siarad mewn Cyfarfodydd Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth a/neu bleidlais ar y mater;**
- **Os yn berthnasol, cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd gydag unrhyw gyrff allanol yn ei gapasiti fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran.**

**Nid yw'r caniatâd arbennig rhannol yn caniatáu'r Cynghorydd i bleidleisio ar y mater.**

Rhoddir y caniatâd arbennig ar y sail statudol bod natur diddordeb yr Aelod yn un lle na fyddai hyder y cyhoedd yn cael ei niweidio yn y ffordd y mae busnes y Cyngor yn cael ei gyflawni o ganlyniad i'r Aelod yn cymryd rhan; mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a nifer sylweddol o'r cyhoedd; mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr Aelod (fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Bryngwran); ac mae'n ymddangos i'r Pwyllgor Safonau ei fod o ddiddordeb i drigolion yr ardal a'r Cyngor y dylai'r analluedd gael ei ddiddymu.

**Gweithredoedd:**

- Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at y Cynghorydd Roberts yn cadarnhau bod Panel y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig rhannol iddo sy'n ei ganiatáu i ysgrifennu, siarad ond nid pleidleisio ar yr holl faterion yn ymwneud â'r mater hwn.
- Rhaid i'r Cynghorydd Roberts ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu wrth fynychu'r Cyngor Cymuned ac unrhyw gyfarfod perthnasol arall gan nodi ei fod wedi cael caniatâd arbennig rhannol gan y Pwyllgor Safonau i allu cymryd rhan ond nid pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 a.m.

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol yn y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyhoeddi fersiwn derfynol y Pwyllgor Safonau o'i Brotocol Datrysiad Lleol at ddefnydd y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Cafodd Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) at ddefnydd Cynghorau Tref a Chymuned (CTCh) ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023. Er y cytunwyd mewn egwyddor i'r PDLl, roedd y Pwyllgor yn dymuno i waith pellach gael ei wneud cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.

1.2 Trafodwyd y PDLl ymhellach mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2023, lle cytunwyd ar addasiadau.

1.3 Anfonwyd y fersiwn derfynol o'r PDLl at y Cynghorau Tref a Chymuned, fel rhan o Gylchlythyr y Pwyllgor Safonau at Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2023. Mae copi o'r PDLl wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1.**

## 2. Y PROTOCOL

2.1 Mae'r Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 1** yn disgwyl i Brotocol Datrysiad Lleol Un Llais Cymru gael ei ddefnyddio gan Aelodau a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned os bydd yna unrhyw bryderon o ran ymddygiad neu gamymddwyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau cyfyngedig, bydd y Pwyllgor Safonau yn ymyrryd, drwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a dim ond mewn amgylchiadau lle mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y byddai'n fanteisiol, lle mae adnoddau/capasiti yn caniatáu a bod y mater(ion) o dan sylw o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau, yn benodol eu bod yn ymwneud â materion ymddygiad. Rhaid i gais ddod gan Gadeirydd neu Glerc y Cyngor Tref a Chymuned neu yn dilyn datrysiad lleol CTCh.

2.2 Mae'r PDLl eisoes wedi'i rannu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned fel rhan o Gylchlythyr y Pwyllgor Safonau. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried sut

mae'n bwriadu atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned o'r Protocol Datrysiad Lleol yn y dyfodol.

2.3 Nid oes unrhyw geisiadau wedi eu gwneud o dan y Protocol Datrysiad Lleol hyd yma.

2.4 Mae trefniadau ar y gweill i'r pum aelod annibynnol a'r ddau gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau i gyflawni hyfforddiant Cyfryngu er mwyn eu cynorthwyo mewn perthynas â'u dyletswyddau PDLl (petai'n ymwneud ag Aelodau Etholedig y Cyngor Sir neu Aelodau Cyngor Tref a Chymuned). Mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 2024 ac mae aelodau wedi eu hysbysu am y trefniadau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r adroddiad.

3.2 Bod y pum aelod annibynnol a'r ddau gynrychiolydd o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau yn mynychu'r hyfforddiant Cyfryngu ym mis Ionawr 2024.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned

1. Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor Tref a Chymuned i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol [PDLl] ac mae'n awgrymu bod y cynghorau'n defnyddio'r PDLl a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru. Copi ar gael yma.

2. Os nad yw PDLl Un Llais Cymru'n addas neu os nad yw'n ymarferol, e.e. oherwydd bod y mater yn ymwneud gyda Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor Tref neu Gymuned, gellir gwneud cais i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am gymorth anffurfiol. Rhaid i'r cais ddod gan:
   2.1 Gadeirydd y Cyngor Tref neu Gymuned;
   2.2 Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned; neu
   2.3 Y Cyngor Tref neu Gymuned ei hun yn dilyn argymhelliad.

3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried pob mater yn seiliedig ar y ffeithiau a bydd yn ymyrryd dim ond os yw'r Cadeirydd o'r farn:
   3.1 Y gallai'r ymyrraeth gan y Pwyllgor Safonau fod o fudd;
   3.2 Bod gan y Pwyllgor Safonau'r adnoddau a/neu'r capasiti i gynorthwyo; a
   3.3 Bod y mater yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'i fod yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad. Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd â materion llywodraethu o fewn Cynghorau Tref a Chymuned.

   Mae gan y Cadeirydd y rhyddid llwyr i benderfynu a fydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd ai peidio.

   Bydd penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n derfynol.

4. Bydd unrhyw broses a ddilynir gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn gwbl wirfoddol. Bydd y broses yn anffurfiol a bydd cyn lleied o waith papur â phosib.

*Wedi'i gytuno gan y Pwyllgor Safonau – Mehefin 2023*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel y nodir uchod** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi ei sefydlu yng Nghymru o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

1.3 Bydd Swyddogion Monitro Awdurdodau gogledd Cymru yn mynychu ar sail rota er mwyn darparu cyngor proffesiynol.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Mae dau gyfarfod wedi eu cynnal hyd yma, un ar 27 Ionawr 2023 ac un ar 30 Mehefin 2023.

2.2 Trafodwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

2.3 Rhannwyd nodiadau o gyfarfod Fforwm mis Mehefin 2023 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a chawsant eu trafod mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2023.

2.4 Yn dilyn y drafodaeth hon, penderfynodd y Pwyllgor Safonau ysgrifennu at y Fforwm mewn perthynas â dau fater. Mae copi o'r ohebiaeth a anfonwyd at weinyddydd y Fforwm wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

2.5 Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi'i drefnu ar gyfer 29 Ionawr 2024. Bydd Mr John R Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hwn, yn mynychu.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm – *"caniateir i nodiadau gael eu cylchredeg i Bwyllgorau Safonau, cyn belled â nad oes nodd i achwynydd neu Gynghorydd a gafwyd cwyn yn eu herbyn gael eu hadnabod. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/yn dilyn pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## ATODIAD 1

**Ar gyfer: Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol**

Anfonaf gais ar ran Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn, os gwelwch yn dda, ar gyfer cyfarfod nesa'r Fforwm (Ionawr 2024).

1. Roedd trafodaeth dda yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ym Mehefin 2023 ynghylch cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned gyda'i materion ymddygiad. Mae mwyafrif helaeth o Gynghorau Tref a Chymuned yn ein hardal ni yn aelodau o Un Llais Cymru a cymerwn yn ganiataol mai dyma'r patrwm yn genedlaethol hefyd. O ystyried hyn felly, a bod Un Llais Cymru yn cynnig cefnogaeth gyflawn i Gynghorau Tref a Chymuned, gofynnir a fyddai posib trefnu bod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn mynychu cyfarfod nesa'r Fforwm?

   Gofynnir i'r cynrychiolydd gyflwyno:

   a. Gwybodaeth gyffredinol ynghylch yr hyn a gynigir gan Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned sy'n derbyn eu cefnogaeth ganddynt; a

   b. Manylion penodol ynghylch materion ymddygiad / Cod Ymddygiad; materion megis:
      1. Pa ddogfennaeth / adnoddau sydd gan Un Llais Cymru ar gyfer CTC ynghylch ymddygiad?
      2. Beth ydi prosesau Un Llais Cymru er mwyn rhannu'r adnoddau hyn? A fydd hynny yn cael ei wneud ar gais yn unig ac ym mha fformat?
      3. Ydi Un Llais Cymru yn cynnig hyfforddiant ar ymddygiad / y cod ymddygiad i aelodau? Os felly, sut gwneir y cynnig hwn? Sut bydd y ddarpariaeth yn cael ei chynnig h.y. Ystafell ddosbarth / ar-lein? Pa mor aml cynhelir sesiynau? Beth ydi'r gost?
      4. Mae gan Un Llais Cymru brotocol datrysiad lleol sy'n cael ei annog yn y CTC gan yr Ombwdsmon. Pa gefnogaeth roddir i'r CTC / Clerc / aelodau o fewn y CTC ar y drefn hon? Oes Hyfforddiant cyfryngu ar gael?
      5. Unrhyw fodd arall mae Un Llais Cymru yn cynnig cefnogaeth i GTC ar faterion ymddygiad.

   Y bwriad wedyn fydd rhaeadru'r wybodaeth yma i'r Cynghorau Cymuned yn lleol tra hefyd yn codi ymwybyddiaeth y Pwyllgorau Safonau.

2. Mae'r mater hwn yn codi yn dilyn trafodaethau gydag Arweinyddion Grwpiau yn ddiweddar ynghylch eu dyletswyddau newydd o dan Ddeddf 2021.

   Mae Hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion Grwpiau yn cael ei drefnu gan CLlLC.

   a. Beth ydi'r amserlen ar gyfer yr Hyfforddiant hwn?
   b. A fyddai posib i aelodau Pwyllgorau Safonau gael mynediad at yr Hyfforddiant (neu yr adnoddau) ar gyfer Arweinyddion Grwpiau hefyd, fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn bydd yr Arweinyddion Grwpiau wedi cael eu cynghori?

Gyda diolch am ystyried y cais.

Yn gywir
John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

CC-022335-LB/783627

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno'r Pwyllgor Safonau â'r ymatebion a gafwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned i'r cais am gadarnhad bod Cynlluniau Hyfforddiant wedi eu mabwysiadu** |
| **AWDUR:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae angen i bob Cyngor Tref a Chymuned gynhyrchu cynllun hyfforddiant blynyddol ar gyfer Cynghorwyr a staff. O dan y ddarpariaeth ddeddfwriaethol newydd hwn, roedd angen i'r Cynllun Hyfforddiant cyntaf gael ei gyhoeddi gan bob Cyngor Tref a Chymuned o fewn 6 mis i'r Etholiad Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022.

1.2 Fel rhan o'r gwaith o sicrhau lefelau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned, mae gan y Pwyllgor Safonau ddiddordeb yn yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig a'r niferoedd o aelodau sy'n mynychu hyfforddiant o'r fath.

## 2. CAIS BLAENOROL A WNAED GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

2.1 Yn ei Gylchlythyr at y Cynghorau Tref a Chymuned ym Mawrth 2023, gofynnodd y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu'r Pwyllgor â chop o'u Cynlluniau Hyfforddiant presennol. Gofynnwyd i bob Cyngor Tref a Chymuned ddarparu copi o'u Cynlluniau Hyfforddiant erbyn 31 Mai 2023. Eglurodd y Cylchlythyr y byddai ymatebion y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023.

2.2 Trafodwyd yr ymatebion a gafwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023 (eitem 13). Roedd y Pwyllgor Safonau yn siomedig mai dim ond pump o'r Cynghorau Tref a Chymuned oedd wedi ymateb.

CC-022335-LB/783642

## 3. CAIS PELLACH GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

3.1 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod mis Mehefin i ohebu ymhellach â'r Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r mater hwn.

3.2 Gwnaed cais pellach yng Nghylchlythyr y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned gadarnhau eu bod wedi mabwysiadu Cynllun Hyfforddiant – ond nad oedd angen iddynt anfon copi ymlaen at y Pwyllgor.

3.3 Anfonwyd gohebiaeth bellach at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 13 Tachwedd gyda chais i dderbyn ymatebion erbyn 30 Tachwedd 2023.

3.4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r manylion sydd wedi eu derbyn gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r pump ymateb a dderbyniwyd yn flaenorol wedi eu cynnwys; mae'r ymatebion newydd a dderbyniwyd wedi eu dangos mewn gwyrdd. Mae cyfanswm o 25 o ymatebion allan o 40 posib bellach wedi eu derbyn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn **Atodiad 1** mewn perthynas â'r Cynghorau Tref a Chymuned.

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Dyddiad derbyn yr ymateb gan y CTCT/ Date response received from TCC** |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymdeithas **Aberffraw** Community Council | |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | 14.11.2023 |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | |
| 4 | Cyngor Cymdeithas **Bodedern** Community Council | |
| 5 | Cyngor Cymdeithas **Bodffordd** Community Council | |
| 6 | Cyngor Cymdeithas **Bodorgan** Community Council | 13.11.2023 |
| 7 | Cyngor Cymdeithas **Bryngwran** Community Council | 23.05.2023 |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | 10.10.2023 |
| 9 | Cyngor Bro **Cwm Cadnant** Community Council | 13.11.2023 |
| 10 | Cyngor Bro **Cylch y Garn** Community Council | |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | 14.11.2023 |
| 12 | Cyngor Cymdeithas **Llanddaniel-Fab** Community Council | 18.11.2023 |
| 13 | Cyngor Cymdeithas **Llanddona** Community Council | |
| 14 | Cyngor Cymdeithas **Llanddyfnan** Community Council | 23.05.2023 |
| 15 | Cyngor Cymdeithas **Llaneilian** Community Council | 14.11.2023 |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | 13.11.2023 |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad**Community Council | |
| 18 | Cyngor Cymdeithas **Llanfachraeth** Community Council | |
| 19 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaelog**Community Council | 30.11.2023 |
| 20 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaethlu** Community Council | |
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | |
| 22 | Cyngor Cymdeithas **Llanfair yn Neubwll** Community Council | 30.11.2023 |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | |
| 24 | Cyngor Cymdeithas **Llanfihangelesceifiog** Community Council | 13.11.2023 |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | 15.11.2023 |
| 26 | Cyngor Cymdeithas **Llangoed a Phenmon** Community Council | 13.11.2023 |
| 27 | Cyngor Cymdeithas **Llangristiolus** Community Council | 23.05.2023 |
| 28 | Cyngor Cymdeithas **Llanidan** Community Council | |
| 29 | Cyngor Cymdeithas **Mechell** Community Council | 13.11.2023<br>I'w drafod yn cyfarfod nesaf / To be discussed at next meeting |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | 10.10.2023 |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star** Community Council | 26.10.2023 |
| 32 | Cyngor Cymdeithas **Pentraeth** Community Council | 04.04.2023 |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy / Menai Bridge** Town Council | 14.11.2023 |
| 34 | Cyngor Cymdeithas **Rhoscolyn** Community Council | 30.11.2023 |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | 30.11.2023 |
| 38 | Cyngor Cymdeithas **Tref Alaw** Community Council | |
| 39 | Cyngor Bro **Trewalchmai** Community Council | 23.05.2023 |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | 05.10.2023 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ar Fframwaith Safonau Moesegol Cymru (adroddiad Richard Penn).** |
| **DIEBN YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Safonau, fel y cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ym mis Mawrth 2021, bu i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd gomisiynu adolygiad annibynnol ar y fframwaith safonau moesegol ar gyfer Llywodraethau Lleol yng Nghymru, a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r fframwaith yn cynnwys Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chynghorau Tref a Chymuned. Mae hefyd yn ystyried y newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno ac a effeithiwyd ar y fframwaith, dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2 Cwblhawyd yr adolygiad annibynnol gan Richard Penn, cyn brif weithredwr awdurdod lleol a chadeirydd blaenorol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Cyhoeddwyd yr "Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru" gan Richard Penn (ymgynghorydd annibynnol) yn llawn oddeutu pedwar mis yn ddiweddarach, yn ystod Gorffennaf 2021. Nodwyd bod y fframwaith presennol yn 'addas at ei ddiben' ac yn gweithio'n dda yn ymarferol. Roedd yr adroddiad yn gwneud argymhellion.

## 2. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Cwblhaodd Llywodraeth Cymru ymarferiad ymgynghori yn seiliedig ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ar Fframwaith Safonau Moesegol Cymru (adroddiad Richard Penn), rhwng 24 Mawrth a 23 Mehefin 2023.

2.2 Bu i’r Pwyllgor Safonau gwrdd yn anffurfiol ar 12 Mai 2023 i drafod y ddogfen Ymgynghorol. Cafodd ymateb y Pwyllgor i gwestiynau’r Ymgynghoriad eu cofnodi a’u hymgorffori mewn ymateb drafft.

2.3 Cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gwrdd gyda’r Arweinyddion Grwpiau ar 8 Mehefin i gyflwyno a thrafod ymateb drafft y Pwyllgor Safonau i’r Ymgynghoriad. Rhoddodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ddiweddariad llafar ar argymhellion yr Arweinyddion Grŵp yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023 (eitem agenda 12).

2.4 Trafodwyd yr ymateb drafft a baratowyd ar ran y Pwyllgor Safonau (wedi’i atodi yn Atodiad 2 adroddiad mis Mehefin 2023) yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin. Yn sgîl yr argymhellion gan yr Arweinyddion Grŵp, cytunodd y Pwyllgor Safonau i addasu’r ymateb drafft hwn. Mae’r ymateb a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, ar ran y Cyngor, yn cynnwys sylwadau a wnaed gan yr Arweinyddion Grŵp fel rhan o’r ymateb i’r ymgynghoriad; mae’r materion yn ymwneud yn benodol â chwestiynau 14 a 15 yn yr ymgynghoriad.

2.5 Mae copi terfynol o ffurflen ymateb y Pwyllgor Safonau, fel yr anfonwyd at Lywodraeth Cymru ar 22 Mehefin 2023, wedi’i chynnwys yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion oedd 23 Mehefin.

**3. CRYNODEB O YMATEBION I’R YMARFERIAD YMGYNGHORI**

3.1 Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn). Gellir gweld y ddogfen yma.

3.2 Mae’r ddogfen wedi cael ei rhannu er gwybodaeth gyda’r Pwyllgor Safonau gan nad oes angen camau pellach.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 I’r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys crynodeb o ymatebion Llywodraeth Cymru i’r ymgynghoriad ar yr argymhellion ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn).

4.2 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn hysbysu’r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddogfennaeth neu wybodaeth bellach a dderbynnir mewn perthynas ag Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn.

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**: **WG47012**

Eich enw: John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

E-bost/rhif ffôn: JohnJones@ynysmon.llyw.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Nid ydym yn gofyn am ymatebion penodol ar yr holl argymhellion. O ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, mae ymatebion Gweinidogion Cymru i'r argymhellion yn cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer newid deddfwriaethol; yn tynnu sylw at rai camau yr aethpwyd i'r afael â hwy ers cyhoeddi'r Adroddiad heb fod angen deddfwriaeth; rhai awgrymiadau ynghylch camau gweithredu heb fod angen deddfwriaeth, ac awgrymiadau pellach ar gyfer gwelliannau, sydd wedi'u nodi mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ers cyhoeddi'r Adroddiad.

Fodd bynnag, mae cwestiwn cyffredinol ar ddiwedd y cwestiynau ymgynghori lle gallwch ychwanegu eich sylwadau ar yr argymhellion nad oes cwestiwn penodol ar eu cyfer isod, neu os ydych am wneud unrhyw sylwadau eraill ar y ddogfen ymgynghori.

**Argymhelliad 4**

C1. Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001?

Cytuno

**Sylwadau**: Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol a rhesymol; mae hefyd yn sicrhau dull cyson ledled Cymru.

**Argymhelliad 10**

C2. A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn cytuno y dylai Panel Dyfarnu Cymru allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig yn ystod gwrandawiad, a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru mewn achos, byddem yn argymell fod y Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig yn cael eu gwneud dim ond mewn amgylchiadau penodol ac eithriadol.

Rydym yn gwahaniaethu gwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru oddi wrth Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (fel y cyfeiriwyd yn yr Ymgynghoriad). O ran materion cyflogaeth, mae'r broblem fel arfer rhwng partïon penodol, tra mewn achosion Panel Dyfarnu Cymru, mae elfen gref o ddiddordeb cyhoeddus yn yr achosion gan eu bod yn berthnasol i'r rheiny sy'n dal swydd gyhoeddus mewn capasiti cynrychiadol.

Mae'n rhaid i hawl Panel Dyfarnu Cymru i gyhoeddi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig weithio gyda'r egwyddorion fod achosion sy'n cynnwys cynghorwyr (a all arwain at ddiarddel cynghorwyr o ddal swydd gyhoeddus) angen y lefel uchaf bosibl o dryloywder.

C3. A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw?

Cytuno
**Sylwadau**: Dim sylw pellach.

C4. Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?

Ydym

**Sylwadau**: Rydym yn cefnogi newid, ond:-

(A) Mae angen eglurder mewn perthynas â diffiniad "diwrnodau". A yw hyn yn ddiwrnodau gwaith ?

(B) Nid yw 7 diwrnod (boed yn ddiwrnodau gwaith neu beidio) yn amser digonol i Apelydd ddarparu'r ddogfennaeth/gwybodaeth ofynnol. Bydd y rhan fwyaf o Apelwyr yn cynrychioli eu hunain, ac ni fyddant yn gyfarwydd â gweithdrefnau o'r fath. Gall goblygiadau'r apêl fod yn sylweddol iddynt, ac felly, byddai angen mabwysiadu amserlen resymol; a

(C) Rydym yn pryderu am y cynnig i beidio â gosod unrhyw derfyn amser ar Banel Dyfarnu Cymru, yn enwedig gan y bydd gan bob parti arall derfyn amser i'w bodloni (e.e. Apelydd 7 diwrnod, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 14 diwrnod). Mae'n deg fod Panel Dyfarnu Cymru hefyd yn atebol dros ddilyn amserlen. Byddai hyn yn helpu partïon i reoli eu disgwyliadau gan y byddai'n fater pwysig i'r Apelydd, yr Achwynydd a thystion eraill. Ni ddylai'r amserlenni fod yn amhendant. Nid yw oediadau hir yn fuddiol i'r cyhoedd, a byddent yn dod â gwarth ar y broses.

C5. A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?

Cytuno

**Sylwadau**: Er y byddem yn cytuno gyda'r egwyddor fod Panel Dyfarnu Cymru yn cael mynegi pŵer i alw ar dystion i dribiwnlysoedd apêl, rydym yn cwestiynu pa mor

effeithiol fyddai pŵer o’r fath, oni bai bod sancsiynau dilynol am doriadau. Hoffem wybod beth fyddai’r sancsiynau.

C6. A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i’r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?

Na

**Sylwadau**: Ni fyddem yn cefnogi newid o’r fath gan fod y trefniadau presennol yn gweithio’n effeithiol, ac maent yn ddefnyddiol er mwyn i’r Pwyllgor Safonau dderbyn argymhellion Panel Dyfarnu Cymru, hyd yn oed os na ddilynir yr argymhellion hynny. Mae cyfeirio mater yn ôl i’r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol er mwyn ei ail ystyried, gydag argymhellion a hyd yn oed gyfarwyddiadau, yn arferiad barnwrol sefydlog.

C7. Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu’r cyfan o wrandawiadau tribiwnlys yn breifat?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn credu y dylid rhagdybio y cynhelir pob gwrandawiad yn gyhoeddus, ond byddai’n deg ac yn rhesymol i gynnal rhannau/y cyfan o wrandawiadau’r tribiwnlys yn breifat mewn rhai amgylchiadau penodedig. Mae’r Pwyllgor Safonau, fel y Cyngor, yn gallu gwahardd y wasg a’r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol e.e. lle datgelir gwybodaeth bersonol neu fasnachol sensitif, ac mae’n addas y gallai Panel Dyfarnu Cymru gael yr hawl i gynnal y gwrandawiad cyfan, neu ran ohono’n breifat, pan fo amgylchiadau’n caniatáu.

C8. Ydych chi’n cytuno y dylid cadw’r gofyniad i roi dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn argymell y dylid rhoi’r rhybudd cynharaf bosibl i ohirio gwrandawiad a bod y rhybudd o saith diwrnod (gofynnwn am eglurhad ynghylch a yw’r diffiniad hwn yn cyfeirio at ddiwrnodau gwaith yn unig) yn cael ei nodi fel yr isafswm.

C9. A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i’r Panel, ac os felly, beth ddylai’r sancsiynau fod?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn cytuno y dylai Panel Dyfarnu Cymru feddu ar agwedd amrywiol a hyblyg at y sancsiynau sydd ar gael iddo, ac rydym yn credu bod opsiynau megis cyfyngu mynediad aelodau at adnoddau’r awdurdod, cyfyngu mynediad aelod at eiddo’r awdurdod (mewn cyd-destun etholedig) neu osod amodau megis y bydd gwaharddiad dros dro yn fyrrach os bydd yr aelod yn ymddiheuro’n ysgrifenedig / derbyn hyfforddiant / cymryd rhan mewn cymodi, yn ddefnyddiol.

Rydym hefyd yn credu y byddai gwaharddiad dros dro rhannol yn ddefnyddiol e.e. am fethu â datgan diddordeb personol mewn mater cynllunio, galluogi'r aelod i barhau i weithio ar eu dyletswyddau lleol ond eu bod nhw'n cael eu gwahardd rhag eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio am dri mis ac ati. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fyddai eu hetholaeth yn cael ei ddifreintio. Gellid cymryd agwedd debyg at rolau cyflogedig uwch, lle mae dyletswyddau aelod lleol yn parhau ond fod yr aelod wedi'i wahardd rhag ymgymryd â rôl arweinyddol a derbyn yr elfennu honno o'u lwfans.

C10a. A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?

Cytuno

**Sylwadau:** Byddai hyn yn ddefnyddiol o ran atal cynghorau rhag gorfod ymgeisio am waharddeb i wahardd aelodau, mewn rhai amgylchiadau.

Credir hefyd y byddai gorchymyn i atal dros dro yn dilyn yr un dull ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu hatal, ac felly byddai lwfansau/cydnabyddiaeth tâl yn parhau'n llawn.

C10b. Os ydych chi o blaid y newidiadau i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, h.y. drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001?

Ddim yn cytuno

Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r broses hon o fewn y rheoliadau?

**Sylwadau**: Byddai defnyddio adnoddau i ddatblygu trefniadau dros dro yn awr yn tynnu oddi wrth yr ymdrechion i sicrhau newid hir dymor, ac rydym yn credu y gellid defnyddio adnoddau prin yn well drwy ganolbwyntio ar y strategaeth tymor hir.

C11. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel?

Nagoes

**Argymhelliad 12**

C12. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

**Sylwadau**: Byddai gweithredu cydlynol canolog yn ddefnyddiol i gyflawni'r nod hwn. I'r perwyl hwn, argymhellir y byddai hyn yn rhywbeth y gallai Cadeiryddion Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau ei drafod, a chytuno ar ddull cyson.

Fodd bynnag, er bod codi ymwybyddiaeth o'r fframwaith moesegol yn gadarnhaol ar y cyfan, rydym yn pryderu am reoli disgwyliadau'r cyhoedd. Er y ceir tystiolaeth gyson o doriadau, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gosod trothwy diddordeb cyhoeddus uchel ac mae trefniadau datrysiadau lleol yn berthnasol i aelodau lleol ac nid ar gyfer cwynion gan y cyhoedd. Felly, gallai "hysbysebu" neu "hyrwyddo'r" fframwaith arwain at lawer mwy o gwynion a fyddai'n cael eu gwrthod yn y pen draw. Gofynnwn, a yw hyn yn ddoeth?

**Materion cysylltiedig eraill nad ydynt yn rhan o Adroddiad yr Adolygiad**

C13. Hysbysebu am aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn credu y dylai fod yn fater o ddewis lleol ac nid gofyniad deddfwriaethol pan fo swyddi gwag o'r fath yn cael eu hysbysebu.

O brofiad blaenorol, mae hysbysebu drwy bapurau newydd wedi bod yn fuddiol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi defnyddio mathau eraill o hysbysebu gan gynnwys gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn cefnogi arfer sy'n sicrhau bod y nifer uchaf o ymgeiswyr yn cael eu cyrraedd, o amrywiaeth o ddemograffig, lle mae cynhwysiant yn ystyriaeth hanfodol.

Mae Panel Dethol ein Pwyllgor Safonau wedi llenwi swydd wag. Yr argymhelliad fydd i gynnwys hysbysebion papur newydd oherwydd demograffig hŷn yr ardal sy'n cael eu gwasanaethau gan y Cyngor, ac er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o wahanrwydd digidol.

C14a. Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?

Cytuno

C14b. Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn Swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?

Barn y Pwyllgor Safonau ydi y dylai'r rhan fwyaf o gyn-weithwyr y Cyngor allu eistedd fel aelod annibynnol ar ôl 12 mis o ddiwedd eu cyflogaeth.

Fodd bynnag, yn unol gyda barn y Pwyllgor Safonau, dylai unigolyn a oedd mewn swydd wleidyddol gyfyngedig ddisgwyl 2 flynedd yn dilyn diwedd eu cyflogaeth cyn eistedd fel aelod annibynnol.

Mae diffyg consensws barn ymysg Arweinyddion y Grwpiau ar y mater hwn, gyda rhai'n cytuno gyda barn y Pwyllgor Safonau ac eraill yn credu dylai swyddogion a oedd mewn swydd wleidyddol gyfyngedig ddisgwyl lleiafswm o 3 mlynedd yn dilyn diwedd eu cyflogaeth cyn eistedd fel aelod annibynnol.

C15. Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?

Cytuno ac Anghytuno

**Sylwadau**: Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y dylai Cyn-gynghorydd allu eistedd fel aelod annibynnol 2 flynedd ar ôl gadael swydd etholedig o fewn y cyngor lle bu'n aelod.

Roedd gwahaniaeth barn ar y mater hwn ymysg Arweinyddion y Grwpiau gwleidyddol. Teimlai rhai fod gan gyn-Gynghorwyr sgiliau a fyddai'n fuddiol ac felly'n cytuno gyda barn y Pwyllgor Safonau; ond roedd eraill yn credu na ddylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-Gynghorwyr oherwydd consyrn am gymhelliant.

O safbwynt ymatebion cwestiynnau 14 a 15 ynghylch ehangu'r carfanau all eistedd fel aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, gwnaethpwyd y sylw hefyd y dylid gofalu fod amrywiaeth cefndiroedd a sgiliau ymysg aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau e.e. ni ddylai pob aelod annibynnol fod yn gyn-gynghorydd neu'n gyn-swyddog.

C16. Pwyllgorau safonau galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?

Na

**Sylwadau**: Nid ydym yn credu fod galw ar dyst anfodlon yn cynorthwyo achos; byddwn yn ceisio clywed gan dystion sy'n barod i gyfrannu at weithdrefnau, ac a fydd yn cynnig gwybodaeth ar eu liwt eu hunain. Byddai darparu pŵer o'r fath heb unrhyw fodd o orfodi yn dod â gwarth ar yr arfer i ddefnyddio pŵer.

C17. Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall Pwyllgor safonau eu gosod?

Cytuno

Yn debyg i'r ddarpariaeth i ymestyn sancsiynau Panel Dyfarnu Cymru [a drafodwyd dan gwestiwn 9 uchod], byddwn yn croesawu hyblygrwydd ychwanegol i'r math o sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau.

A ninnau'n Bwyllgor Safonau rhagweithiol, rydym yn credu fod addysg yn hollbwysig. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rheiny sydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Hoffem gael set o sancsiynau mwy cywrain a fyddai'n cefnogi'r nod hon yn gyffredinol. Lle bynnag y bo'n rhesymol, ac er budd y cyhoedd, byddwn yn ceisio cefnogi ac annog arfer da yn hytrach na "chosbi".

Byddwn yn cefnogi Panel Dyfarnu Cymru i gael agwedd amrywiol a hyblyg at y sancsiynau sydd ar gael iddo, ac rydym yn credu y byddai opsiynau megis cyfyngu mynediad unigolyn at adnoddau'r awdurdod, cyfyngu mynediad aelod at eiddo'r awdurdod (yn eu capasiti etholedig) neu osod amodau sy'n golygu bydd gwaharddiad yn llai os bydd yr aelod yn ymddiheuro'n ysgrifenedig / yn derbyn hyfforddiant / cymryd rhan mewn cymodi, yn ddefnyddiol.

Rydym hefyd yn credu y byddai ataliad dros dro yn ddefnyddiol e.e. am fethu a datgan diddordeb personol mewn mater cynllunio, caniatáu'r aelod i barhau â'u dyletswyddau lleol er ei fod wedi'i wahardd rhag eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio am dri mis ac ati. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fyddai eu hetholaeth yn cael ei ddifreinio. Gellid dilyn dull cyffelyb tuag at rolau cyflogedig uwch, lle mae dyletswyddau aelod lleol yn parhau, ond mae aelod wedi'i wahardd rhag ymgymryd â rolau arweiniol a derbyn yr elfen ohono o fewn eu lwfans.

**Y Gymraeg**

Hoffem wybod eich barn am yr effaith a all y newidiadau uchod i'r Fframwaith a Chod Ymddygiad ei gael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.

C18. Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?

C19. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

C20. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nodwn bod adroddiad Penn yn dweud ei bod yn "hanfodol bod y Fframwaith yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sylweddol sydd wedi'i gwneud ers ei sefydlu, yn benodol Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021". Nid oes cyfeiriad cyffelyb at gyfundrefn gyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith ac sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
- y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau'n Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Dylid sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cydymffurfio â safonau’r Gymraeg, yn ystyriol o bolisïau iaith Gymraeg awdurdodau lleol ac yn parchu rhyddid aelodau etholedig ac eraill i ddefnyddio’r iaith os ydynt yn dymuno.

C21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy?

Oes

**Sylwadau**: Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn hanfodol. Er bod Cod Ymddygiad y Cyngor hwn yn cynnwys yr argymhelliad y bydd aelodau’n cwblhau hyfforddiant ar y Cod cyn pen 6 mis o ddechrau swydd, nid oes gofyniad yn y Cod Model, ac nid oes gofyniad o’r fath ar gynghorwyr tref a chymuned. Rydym o’r farn y dylai’r Cod Model gynnwys y ddarpariaeth hon.

Mae hyfforddiant ar gyfer clercod cymunedol hefyd yn rhywbeth y dylid ei ystyried. Mae clerc gwybodus, sy’n deall y Cod Ymddygiad a rheolaugweithdrefnau, yn hanfodol mewn cyngor cymuned gweithgar. Mae swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi adrodd yn gyson fod y rhan fwyaf o achosion a dderbynnir yn berthnasol i gynghorwyr tref a chymuned. Efallai y byddai hyfforddiant mandadol yn cynorthwyo yn yr ymdrech i leihau’r rhif hwnnw. Rydym wedi trefnu pedwar sesiwn hyfforddi Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned, a’u clerciaid, ond mae’r nifer sydd wedi cymryd rhan wedi bod yn isel iawn. Efallai y byddai deunyddiau hyfforddi digidol a chenedlaethol, y gall cynghorwyr tref a chymuned eu defnyddio yn eu cyfarfodydd eu hunain/o bell, yn ddefnyddiol.

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ▫

Diolch am roi o’ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi maes o law.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Safonau** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **I'r Pwyllgor Safonau nodi'r cynnwys** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyniad statudol i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol, sy'n bodloni'r gofynion statudol sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, cyn gynted a bo'n ymarferol bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2022-2023

2.1 Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/2023, am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023, fel drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023 (eitem 11).

2.2 Bu i aelodau'r Pwyllgor Safonau gwrdd yn anffurfiol ym mis Gorffennaf 2023 er mwyn trafod y broses i Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'u dyletswyddau newydd. Addaswyd yr Adroddiad Blynyddol er mwyn cynnwys y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses hon.

2.3 Cyflwynwyd adroddiad terfynol y Pwyllgor yng nghyfarfod o'r Cyngor llawn ar 12 Medi 2023 (eitem 12).

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2023-2024

3.1 Un elfen o'r Adroddiad Blynyddol, a wnaed am y tro cyntaf yn 2022/2023, yw bod yn rhaid iddo gynnwys asesiad y Pwyllgor ar gydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau gyda'u dyletswyddau newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cynhaliwyd gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Tachwedd 2023 er mwyn trafod y broses a ddilynwyd ar gyfer y cyfnod adrodd 2022/2023 ac er mwyn ystyried y broses ar gyfer y cyfnod adrodd presennol.

3.2 Penderfynwyd yn y cyfarfod ym mis Tachwedd y byddai newidiadau'n cael eu cynnig i Ffurflen yr Arweinyddion Grwpiau ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Safonau. Mae trefniadau'n

cael eu gwneud i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynychu cyfarfod Arweinyddion Grwpiau er mwyn cyflwyno'r templed adroddiad drafft newydd, wedi'i atodi yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn, ac i gasglu safbwyntiau'r Arweinyddion Grwpiau. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael gwybodaeth am ganlyniadau'r trafodaethau hynny.

3.3 Fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau gyda'r Arweinyddion Grwpiau, mewn perthynas â'u dyletswydd newydd, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd hefyd yn trafod cyfleoedd hyfforddiant posibl ar gyfer Arweinyddion Grwpiau. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru'n nodi bod rhaid i Bwyllgorau Safonau ddarparu neu drefnu hyfforddiant i Arweinyddion Grwpiau ar eu dyletswydd newydd.

3.4 Bydd adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2023-2024, sy'n ymgorffori'r canfyddiadau o'r broses uchod, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2024.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Fod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y ~~p~~Pwyllgor o sut y mae A~~a~~rweinwyr ~~g~~Grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r templed ar gael yn **Atodiad 1**.

6. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

7. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

8. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

9. Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad.

10. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y P~~p~~wyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

12. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

13. Os yn berthnasol, b~~B~~ydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad gan:** | (enw'r AG) | **Grŵp Gwleidyddol:** | (enw'r Grŵp) |
| **Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):** | 1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___ | **Nifer o aelodau yn y grŵp:** | |

**Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

*Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y math o faterion mae'r Pwyllgor Safonau yn disgwyl i Arweinyddion Grwpiau roddi sylw iddynt a'r trothwy a ddefnyddir gan y Pwyllgor wrth ystyried â ydych chi wedi gweithredu eich dyletswydd fel Arweinydd y Grŵp. Dylech ystyried y materion hyn a'r 10 egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn **Atodiad 3** wrth baratoi eich ymateb, os gwelwch yn dda.*

**➔ Ymrwymiad personol**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| - |

**➔ Annog aelodau**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| - |

**➔ Cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau eraill**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| - |

~~**Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn ystod y Cyfnod:**~~

| | |
|---|---|
| ~~**Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad:**~~ | |

**Os gwelwch yn dda, a wnewch chi atodi unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd gennych o'r camau rydych wedi eu cymryd o safbwynt y materion uchod.**

**Hyfforddiant Modiwlau Mandadol ~~(ac eithrio'r Cod Ymddygiad)~~ yn ystod y Cyfnod:**
Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4~~2~~.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:** | | **Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:** | |

| | |
|---|---|
| **Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:** | |

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn benodol:** | |

**Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:** | |

**Adolygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |

**Adroddiadau Blynyddol, sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor fel arfer dda, ~~-~~ar gyfer y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:** | |

**Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:** | |

**Cwynion:**

| **Cwyn gan:** | **Y camau a gyrhaeddwyd:** | | |
|---|---|---|---|
| (nodwch y niferoedd) | **Anffurfiol** | **Protocol Datrysiad Lleol** | **OGGC** |
| aelod o'r cyhoedd | | | |
| swyddog | | | |
| aelod o'r un grŵp gwleidyddol | | | |
| aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol | | | |

**Cyfarfodydd cefnogi:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |

~~**Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**~~

| |
|---|
| ~~Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth.~~ |
| - |

**Ystyriaeth o eleni o gymharu gyda'r llynedd:**

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried eu bod wedi **gwella** eleni? |
| - |

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried sydd **angen sylw** ar gyfer y flwyddyn nesaf gennych? |
| - |

***Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru***

***Arwyddwyd gan yr AG:*****________________________________________** ***Dyddiad:*** __________________

**Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

**Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod**. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb ac yn seiliedig ar y Canllaw Statudol sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymrwymiad personol:

- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yn cynnwys moesgarwch a pharch yn benodol;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:

- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:

- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- gweithio gyda'r pwyllgor safonau i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â nhw e.e. drwy awgrymu neu ofyn am hyfforddiant briodol, gofyn am ddileu negeseuon amhriodol oddi ar wefannau cymdeithasol neu gofyn i ystyried ymddiheuro;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

Materion eraill allai fod yn berthnasol:

- Rydych wedi adolygu Canllaw yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.
- Rydych wedi ystyried Newyddlenni y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.
-

Gofynnir wrthych am atodi tystiolaeth berthnasol. Yn unol â'r Canllaw Statudol gan Lywodraeth Cymru, awgrymir bod tystiolaeth yn gallu cynnwys nodiadau cyfarfodydd, copiau o ohebiaeth, archwiliadau hyfforddiant aelodau ar faterion megis cydraddoldeb a'r Cod Ymddygiad, a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant hwnnw.

## 10 Egwyddor Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus statudol yng Nghymru

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd ~~i~~l hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydradoldeb a pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arwain



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Modiwlau Hyfforddiant Mandadol

- Cod Ymddygiad *
- Diogelwch Seibr *
- Diogelu #
- Prosesu Gwybodaeth (GDPR) #
- Cydraddoldebau #
- Technoleg Gwybodaeth *

* = yn ofynnol o fewn 6 mis i aelod gael eu hethol
# = yn ofynnol o fewn 12 mis i aelod gael eu hethol

Yn ogystal â:

- Ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau:
  - Cadeirio Cyfarfodydd Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
    Yn ofynnol ar ethol yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd ac yna pob dwy flynedd os ail-etholir.

- Yr Hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelod o Bwyllgor penodol, yn cynnwys:
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgor Trwyddedu
  - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant
  - Pwyllgor Apwyntio

Mae gofyn i Aelodau gwblhau ac ail-adrodd yr hyfforddiant mandadol gofynnol yn unol â'r manylion â gyhoeddir gan y Cyngor.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Polisi Indemniadau** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar adolygiad y Gwasanaethau Democrataidd ar Bolisi Indemniadau'r Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn caniatáu awdurdodau lleol i gynnig indemniadau (ac yswiriant) i aelodau a swyddogion wrth ryddhau dyletswyddau eu rolau priodol. Cafodd y pwerau a roddwyd gan y Gorchymyn eu mabwysiadu gan y Cyngor hwn yn 2011 pan wnaed y penderfyniad i gynnig indemniadau i aelodau a swyddogion yn ôl polisi ('y Polisi') a fabwysiadwyd ar yr un pryd. Yn 2013, diwygiwyd y Polisi er mwyn cynnwys argymhelliad gan Lywodraeth Cymru fod unrhyw indemniad a gymeradwyir dan y Gorchymyn, fel bo aelod etholedig yn cael amddiffyn ei hun rhag honiad ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad, yn cael ei gyfyngu i uchafswm o ugain mil o bunnoedd.

1.2 Ar 29 Tachwedd 2023, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda chais fod y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Polisi cyfredol. Mae copi o'r Polisi cyfredol wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

1.3 Mae'r adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o faterion a ellid ymdrin â nhw gydag indemniadau eisoes wedi cael eu cynnwys dan yswiriant sydd ar waith gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae un maes lle nad oes dim yswiriant ar gael, ac mae'n disgyn o fewn cwmpas y Gorchymyn a'r Polisi, sef y pŵer i gynnig indemniad ar gyfer y costau i aelod etholedig amddiffyn ei hun rhag unrhyw honiad ei fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor.

1.4 Bydd yr Is-bwyllgor Indemniadau sydd wedi'i sefydlu yn gyfrifol am ystyried unrhyw gais a wneir gan aelod dan y Polisi.

CC-022335-LB/783353

## 2. RÔL Y PWYLLGOR SAFONAU

1.1 Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau wneud penderfyniad ynghylch cwyn sy'n cael ei hatgyfeirio i'r Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) dan Ran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf). Gall hyn godi o ganlyniad i un ai:

(a) Mae'r OGCC wedi gohirio archwiliad ac wedi atgyfeirio'r mater i'r Swyddog Monitro dan adran 70(4) y Ddeddf, ac mae'r Swyddog Monitro yna'n archwilio'r mater ac yn adroddiad canfyddiadau ei archwiliad ef/hi i'r Pwyllgor.
neu
(b) Mae'r OGCC yn cwblhau archwiliad ac yna'n atgyfeirio'r materion sy'n destun archwiliad gan y Swyddog Monitro dan adran 71(2) y Ddeddf er mwyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau.

2.1 Efallai y bydd aelod sy'n wynebu honiadau eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad angen cyngor a chymorth cyfreithiol. Dylai'r aelod ystyried a ydynt yn gymwys i wneud cais dan y Polisi. Gwneir penderfyniad ynghylch ceisiadau o'r fath gan yr Is-bwyllgor Indemniadau yn unol â'r Polisi.

2.2 Mewn achosion lle canfyddir bod aelod etholedig wedi torri'r Cod, ac yn destun cosb o waharddiad neu ddiarddeliad, mae'r gyfraith yn gofyn fod yr aelod yn ad-dalu unrhyw indemniad a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Indemniadau. Os yw'r gosb a roddir yn llai dwys na gwaharddiad, bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch y gofyniad i'r aelod ad-dalu'r indemniad.

## 3. DIWEDDARIAD GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

3.1 Roedd y Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno gyda'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad.

3.2 Gofynnodd hefyd fod y cyfyngiad o £20,000 yn cael ei adolygu yn ystod yr adolygiad rheolaidd nesaf o'r Polisi, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r cynnydd mewn chwyddiant ers cyflwyno'r cyfyngiad am y tro cyntaf.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Fod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys y Polisi Indemniadau a'r rôl y mae'n bosib y bydd angen ymgymryd â hi mewn perthynas ag indemniadau sydd wedi cael eu cymeradwyo i aelodau y canfyddir eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad gan y Pwyllgor Safonau o sampl o Gofrestrau Buddiannau aelodau etholedig** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Cynghorir y Pwyllgor ar y broses y dylid ei dilyn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Fel rhan o'i raglen gwaith ar gyfer 2023-2024, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o sampl o gofrestrau buddiannau aelodau etholedig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau

1.2 Cwblheir yr adolygiadau gan 5 aelod annibynnol y Pwyllgor.

1.3 Anfonodd y Pwyllgor Safonau ohebiaeth at holl aelodau etholedig y Cyngor ar 27 Hydref 2023 yn eu cynghori o fwriad y Pwyllgor. Mae copi wedi'i atodi yn **Atodiad 1**.

1.4 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi cynghori Arweinyddion Grwpiau o'i fwriad mewn cyfarfod â nhw ar ddechrau mis Hydref.

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

2.1 Trafodwyd y broses i'w dilyn ar gyfer adolygiadau, a sut i ddethol y sampl, mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 15 Tachwedd 2023.

**2.2 Y sampl:**

2.2.1 Penderfynwyd y bydd y sampl yn cynnwys 20 Aelod. Bydd pob aelod annibynnol o'r Pwyllgor yn adolygu manylion 4 aelod.

2.2.2 Bydd y sampl yn cael ei ddethol ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

| Enw'r blaid ("plaid eich Cynghorydd"): | Cyfanswm aelodau'r grŵp: | Ar sail 20 adolygiad, cyfanswm yr aelodau fydd yn cael eu hadolygu: |
|---|---|---|
| Plaid Cymru / The Party of Wales | 21 | 12 |
| Annibynwyr Môn | 7 | 4 |
| Y Grŵp Annibynnol | 4 | 2 (talgrynwyd o 2.2) |
| Welsh Labour / Llafur Cymru | 3 | 2 (talgrynwyd o 1.7) |
| Cyfanswm | 35 | 20 |

2.2.3 Bydd Cofrestrau pob Arweinydd Grŵp yn cael eu hadolygu. Bydd yr aelod(au) eraill yn y Grŵp y bydd eu cofrestr yn cael ei hadolygu, yn cael eu dethol ar hap.

**2.3 Y broses:**

2.3.1 Ar gais blaenorol aelodau'r Pwyllgor Safonau, cyflwynwyd Nodyn Cynghori i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod anffurfiol ar 15 Tachwedd 2023. Cymeradwywyd y Nodyn Cyngor gan y Pwyllgor. Mae copi o'r Nodyn Cyngor wedi'i atodi yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn. Bydd pob adolygwr yn dilyn y broses yn y Nodyn Cyngor wrth gwblhau eu hadolygiadau, er mwyn sicrhau cysondeb agwedd.

**3. CAMAU NESAF**

3.1 Mae'r broses ar gyfer dewis yr aelodau etholedig ar gyfer yr adolygiad wedi'i chwblhau drwy ddefnyddio cyfarpar dewis ar hap. Ni fydd enwau'r aelodau hynny sydd wedi cael eu dewis ar gyfer adolygiad yn cael eu datgelu'n gyhoeddus gan y Pwyllgor Safonau.

3.2 Bydd pob aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau'n cael gwybod enwau'r aelodau hynny y byddant yn cynnal adolygiad yn eu cylch.

3.3 Bydd y Pwyllgor Safonau'n cael cyfarfod anffurfiol cyn cwblhau'r adolygiadau er mwyn trafod y broses. Fel arfer, bydd y broses yn dilyn y Nodyn Cyngor.

3.4 Bydd yr adolygiadau'n cael eu cynnal fel ymarferion unigol h.y. bydd pob aelod ar y Pwyllgor Safonau'n derbyn enwau'r Aelodau hynny y byddant yn cynnal adolygiad yn eu cylch, a byddant yn eu cwblhau'n annibynnol, ac fel ymarferiad ar y bwrdd gwaith.

3.5 Bydd gohebiaeth bellach yn cael ei hanfon at yr holl aelodau etholedig er mwyn eu cynghori ynghylch bwriad y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r adolygiadau. Bydd copi o'r Nodyn Cyngor y bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n ei ddilyn hefyd yn cael ei anfon at yr aelodau etholedig er gwybodaeth.

3.6 Bydd canfyddiadau bob adolygwr yn cael eu cyflwyno, fel yr argymhellir yn rhan C y Nodyn Cynghori. Cynigir bod dogfen ar wahân yn cael ei pharatoi yn nodi crynodeb o'r canfyddiadau (ar fformat tabl) ar gyfer bob aelod etholedig.

3.7 Ar ddiwedd yr ymarferiad, bydd adroddiad cyffredinol (heb ddatgelu unrhyw enwau) yn cael ei rannu gyda phob Aelod gyda'r gobaith y bydd hyn yn ffordd o rannu arfer da a chydnabod materion sydd angen ymdrin â nhw'n gyffredinol. Bydd hefyd yn gyfle i'r Pwyllgor Safonau gynnig ei syniadau ar gyfer gwelliannau.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a phob atodiad perthnasol.

**From:** Cyfraith/Law <cyfraith@ynysmon.llyw.cymru>
**Sent:** 27 October 2023 16:10
**To:** Geraint A. Bebb <GeraintApIfanBebb@ynysmon.llyw.cymru>; Non Dafydd <NonDafydd@ynysmon.llyw.cymru>; Paul Ellis <PaulEllis@ynysmon.llyw.cymru>; Jeff M. Evans <JeffEvans@ynysmon.llyw.cymru>; Neville Evans <NevilleEvans@ynysmon.llyw.cymru>; Douglas M. Fowlie <DouglasMFowlie@ynysmon.llyw.cymru>; Glyn Haynes <GlynHaynes@ynysmon.llyw.cymru>; Trefor Lloyd Hughes <TreforHughes@ynysmon.llyw.cymru>; Aled M. Jones <AledJones@ynysmon.llyw.cymru>; Carwyn Elias Jones <CarwynEliasJones@ynysmon.llyw.cymru>; Dyfed W. Jones <DyfedJones@ynysmon.llyw.cymru>; Gwilym Jones <GwilymJones@ynysmon.llyw.cymru>; John I. Jones <JohnIJones@ynysmon.llyw.cymru>; Robert Llewelyn Jones <RobertJones@ynysmon.llyw.cymru>; Jackie Lewis <JackieLewis@ynysmon.llyw.cymru>; Llinos Medi <LlinosMedi@ynysmon.llyw.cymru>; Euryn Morris <EurynMorris@ynysmon.llyw.cymru>; Pip O'Neill <PipO'Neill@ynysmon.llyw.cymru>; Derek Owen <DerekOwen@ynysmon.llyw.cymru>; Llio A. Owen <LlioAOwen@ynysmon.llyw.cymru>; Gary Pritchard <garypritchard@ynysmon.llyw.cymru>; Dylan Rees <DylanRees@ynysmon.llyw.cymru>; Alun Roberts <AlunRoberts3@ynysmon.llyw.cymru>; Dafydd Roberts <DafyddRoberts4@ynysmon.llyw.cymru>; Keith R. Roberts <KeithRoberts@ynysmon.llyw.cymru>; Margaret M. Roberts <MargaretRoberts2@ynysmon.llyw.cymru>; Nicola Roberts <NicolaRoberts@ynysmon.llyw.cymru>; Ken Taylor <KenTaylor@ynysmon.llyw.cymru>; Dafydd Rhys Thomas <DafyddRhysThomas@ynysmon.llyw.cymru>; Alwen P. Watkin <AlwenPWatkin@ynysmon.llyw.cymru>; Ieuan Williams <IeuanWilliams@ynysmon.llyw.cymru>; Robin W. Williams <RobinWilliams@ynysmon.llyw.cymru>; Sonia Williams <SoniaWilliams2@ynysmon.llyw.cymru>; Liz Wood <LizWood@ynysmon.llyw.cymru>; Arfon Wyn <ArfonWyn@ynysmon.llyw.cymru>; John R. Jones <JohnJones@ynysmon.llyw.cymru>; Dyfan Sion <DyfanSion@ynysmon.llyw.cymru>; Hyfforddiant / Training <Hyfforddiant@ynysmon.llyw.cymru>
**Cc:** John R. Jones <JohnJones@ynysmon.llyw.cymru>
**Subject:** Adolygiad o'r Cofrestrau Datgan Diddordeb gan y Pwyllgor Safonau / Review of the Registers of Interests by the Standards Committee

Annwyl Aelodau,

Fel y gwyddoch, mae'n fwriad gan y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau Etholedig y Cyngor Sir eleni. Rhoddwyd rhag-rybudd am hyn wrth drafod Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol 2022/2023; rwyf hefyd wedi atgoffa Arweinyddion y Grwpiau o'r bwriad hwn yn fy nghyfarfod hefo nhw ar ddechrau'r mis.

Cyn cynnal yr adolygiad, rhoddir cyfle i Aelodau edrych ar eu manylion yn y Cofrestrau a'u gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir. Byddwch yn gwerthfawrogi bod y Cod yn mynnu bod rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid i ddiddordebau sydd wedi eu cofrestru o fewn 28 diwrnod i chi ddod yn ymwybodol o'r newid, beth bynnag.

Mae 3 Cofrestr ar gael i'w gweld ar-lein ar gyfer pob Cynghorydd, sef

- Cofrestr Sefydlog ar gyfer datganiadau diddordeb yn cynnwys manylion cyflogaeth ac aelodaeth o grwpiau neu fudiadau;
- Cofrestr datganiadau mewn cyfarfodydd, a
- Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Os am weld eich Cofrestrau chi, dilynnwch y ddolen hon ac yna dewis eich tudalen bywgraffiad chi o'r rhestr o Gynghorwr ar wefan y Cyngor.  Unwaith byddwch ar eich tudalen bersonol ar y wefan, mae'r Cofrestrau yn ymddangos o dan y pennawd "Mwy o wybodaeth am y cynghorydd yma".

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn gwirio'r hyn rydych wedi ei gofnodi yn y Cofrestrau a'u diweddaru os yn briodol.

- Mae'n hanfodol fod yr holl ddiweddariadau i'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael eu diweddaru drwy'r system ModGov; gallwch gael mynediad yma.
  Mae gwybodaeth ynghylch sut i lenwi ac addasu eich Cofrestrau ar gael yn y Canllaw yma.
- Bydd angen gwneud unrhyw ddiweddariadau i'r Gofrestr o ddatganiadau diddordeb mewn cyfarfodydd drwy'r Adain Bwyllgorau (system bapur ydi hon).

Er gwybodaeth gefndirol bellach, gallwch ystyried y Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol a Rhagfarnol (a rannwyd efo Aelodau yn flaenorol).

Yn ogystal â'r 3 Cofrestr, bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn adolygu:
- Cofnod hyfforddiant Aelodau;
- Bywgraffiadau'r Aelodau ar y wefan;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau; ac
- Aelodaeth yr Aelodau o gyrff allanol gan gynnwys eu presennoldeb mewn cyfarfodydd a'r broses ar gyfer bwydo nôl.

Bwriad y Pwyllgor Safonau ydi cynnal yr adolygiadau yma fel ymarfer unigol h.y. bydd pob aelod ar y Pwyllgor Safonau yn derbyn enwau'r Aelodau bydd disgwyl iddyn nhw eu hadolygu. Ni fydd Cofrestrau pob Aelod yn cael eu hadolygu; y bwriad yw cynnal adolygiad o sampl ymysg y 35 Aelod Etholedig cyfredol. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cynnal yr adolygiadau ar eu cyfrifiaduron yn unigol. Ar ddiwedd yr ymarferiad, bydd adroddiad cyffredinol (heb enwau yn cael eu nodi) yn cael ei rhannu hefo'r holl Aelodau yn y gobaith bydd hyn yn ffordd o rannu arfer dda rhwng Aelodau a chynnig syniadau am welliannau.

Byddaf mewn cysylltiad pellach er mwyn cadarnhau pryd fydd yr Adolygiadau yn cychwyn. Y bwriad ar hyn o bryd yw dechrau ar y gwaith ganol / ddiwedd mis Tachwedd.

Cofion,

John R Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

---

Dear Member,

As you know, it is the intention of the Standards Committee to conduct a review of the Registers of Interests for County Council Elected Members this year. Notice of this was given when discussing the Committee's Work Programme for 2023/2024 as part of its Annual Report for 2022/2023; I have also reminded Group Leaders of this intention when I met with them at the beginning of the month.

Before the review is conducted, Members are given the opportunity to look at their details in the Registers and check them in order to ensure that they are complete and accurate. You will appreciate that the Code requires you to update any change to your registered interests within 28 days of you becoming aware of the change, in any event.

There are 3 Registers available online for each Member, namely
- The Standing Register for declaring interests including employment details and the membership of any groups or organisations;

- The Register of declarations at meeting and
- The Gifts and Hospitality Register.

In order to view your Registers, follow this link and then select your biography page from the list of Councillors on the Council's website. Once you are on your personal page on the website, the Registers appear under the heading of "More information about this councillor".

I would be grateful if you could check your records in the Registers and update them if necessary.

- It is essential that all updates to the Standing Register and the Register of Gifts and Hospitality are made through the ModGov system; you can get access here. Directions for completing and updating your online Registers can be seen on this Guidance.
- Any updates to the Register of declarations of interests made in meetings must be made through the Committees Section (this is a paper system).

For further background information, you can review the Briefing Note on Personal and Prejudicial Interests (which has already been shared with Members).

As well as the 3 Registers, the Standards Committee will also review:

- Members' training records;
- Members' biographies on the website;
- Members' Annual Reports; and
- Members' membership of outside bodies, including their attendance at meetings and the feedback process.

The Standards Committee intends to conduct these reviews as an individual exercise i.e. every member on the Standards Committee will receive the names of those Members that they are to review. Not all Members' Registers will be reviewed; the intention is to review a sample amongst the 35 current Elected Members. The members of the Standards Committee will conduct the review on their laptops individually. At the end of the exercise, a general report (no names will be identified) will be shared with all the Members in the hope that this will be a means of sharing good practice amongst Members and proposing ideas for improvements.

I will be in further contact so as to advise you of the start date for the Reviews. The intention at the moment is to begin the work towards the middle / end of November.

Regards,

John R Jones
Chair of the Standards Committee

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adain Gyfreithiol**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn

**Legal Section**

Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Isle of Anglesey

LL77 7TW
cyfraith@ynysmon.llyw.cymru

Ffôn: 01248752590

LL77 7TW
cyfraith@anglesey.gov.wales

Tel: 01248 752590

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg

Please write to me in Welsh or English

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in both languages. You will receive the same standard of service in both languages.

## PWYLLGOR SAFONAU: ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG A CHYFETHOLEDIG – NODYN CYNGOR AR FETHODOLEG

Gofynnwyd i chi gynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig a chyfetholedig. Paratowyd y nodyn hwn er mwyn eich cynorthwyo gyda'r broses honno drwy fanylu ar y dogfennau sydd angen eu hadolygu, y math o wybodaeth y bydd angen i chi ei chasglu drwy edrych ar y dogfennau hynny a'r dull ar gyfer adrodd ar eich canfyddiadau.

### A. DOGFENNAU I'W HADOLYGU

Y dogfennau i'w hadolygu yn ystod yr ymarferiad hwn yw:-

**1. Y Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau**

- Mae'r gyfraith a Chod Ymddygiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sy'n pleidleisio ddatgan a chofnodi diddordebau personol.
- Mae'r Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau ar gael ar-lein ar gyfer pob Aelod ar eu tudalen bywgraffiad personol.
- Wrth adolygu'r Gofrestr Sefydlog, bydd rhaid i chi ystyried hefyd y rhestr o aelodau o gyrff allanol, fel y caiff ei gofnodi gan y Cyngor ar gyfer pob Aelod, a thudalen bywgraffiad yr aelod er mwyn croesgyfeirio'r rhain gyda'r wybodaeth y mae'r Aelod wedi'i gynnwys ar eu Cofrestr Sefydlog.

**2. Y Gofrestr o Ddatganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd**

- Mae'r Gofrestr hon yn cynnwys ffurflenni papur sy'n cael eu cwblhau gan bob Aelod sy'n datgan naill ai ddiddordeb personol neu ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem a drafodwyd mewn cyfarfod. Gallwch ofyn am gopïau papur llawn o 'Ffurflenni Datganiadau mewn Cyfarfodydd' drwy gysylltu â'r Adain Bwyllgorau (Gwasanaeth Democrataidd).
- Mae'r wybodaeth a gofnodwyd ar y ffurflenni'n cael ei chopïo i dudalen bywgraffiad yr Aelod perthnasol a'i chynnwys o dan y pennawd "Mwy o wybodaeth am y cynghorydd yma" drwy glicio ar "Datganiadau mewn cyfarfodydd". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.
- Yna, bydd angen i chi groesgyfeirio'r wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad gyda Chofnodion y cyfarfod perthnasol. Gellir dod o hyd Gofnodion yr holl gyfarfodydd yma.

**3. Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch**

- Mae'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer pob Aelod ar gael ar-lein i'r cyhoedd ei harchwilio.
- Mae'r Pwyllgor Safonau wedi paratoi a chylchredeg nodyn briffio i Aelodau ynglŷn â chwestiynau a ofynnir yn aml am roddion a lletygarwch a dylech ei ddarllen er mwyn eich cynorthwyo gyda'r adolygiad.

**4. Cofnodion Hyfforddi Aelodau**

- Mae'r adain Adnoddau Dynol yn cadw ac yn cynhyrchu cofnod o'r holl hyfforddiant corfforaethol gaiff ei gwblhau gan yr Aelodau.
- Yn ogystal, mae gofyn i Aelodau gwblhau cofnod ar-lein o'r holl ddigwyddiadau Hyfforddi a fynychwyd ganddynt. Mae'r wybodaeth hon ar dudalen bywgraffiad yr Aelod perthnasol ac wedi'i chynnwys o dan y pennawd "Mwy o wybodaeth am y cynghorydd yma" drwy glicio ar "Hyfforddiant". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.

**5. Adroddiadau Blynyddol**

- Aelodau etholedig yn unig sy'n paratoi Adroddiad Blynyddol.

- Nid oes rheidrwydd ar unrhyw Aelod i gwblhau Adroddiad Blynyddol; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y Cyngor Sir yn cyhoeddi unrhyw Adroddiad Blynyddol gaiff ei gwblhau gan Aelod.
- Mae dolen i Adroddiad Blynyddol pob Aelod wedi'i chynnwys ar dudalen bywgraffiad yr Aelod o dan y pennawd "Gwybodaeth ychwanegol" drwy glicio ar "Adroddiadau Blynyddol Aelodau". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.

**B. BETH SYDD ANGEN EI ADOLYGU?**

1. **Y Gofrestr Sefydlog**

1.1 Mae angen cwblhau'r Gofrestr hon o fewn 28 diwrnod i'r aelod gael ei ethol ac yna ei diweddaru (ar-lein) pan ac os bydd newidiadau'n digwydd. Anfonir llythyr blynyddol at bob Aelod i'w hatgoffa o'r gofyniad yn y Cod Ymddygiad sy'n disgwyl i Aelodau ddiweddaru'r Gofrestr hon o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid perthnasol i'r diddordebau perthnasol.
→ Gwiriwch pryd cafodd y Gofrestr ei diweddaru ddiwethaf (mae'r manylion ar y Gofrestr ei hun).

1.2 Rhaid i Aelodau sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chynnwys ynghylch Rhan 1 – Diddordebau Ariannol.
Nid oes gofyn ar Aelod i gynnwys cyfeiriad postio eu cartref yn eu Cofrestr o Ddiddordebau; bydd cynnwys manylion cyffredinol am yr eiddo yn ddigonol.
→ Gwiriwch bod yr adran hon wedi'i chwblhau'n foddhaol. A oes unrhyw beth yn aneglur?

1.3 Yn ogystal, rhaid i'r Aelodau sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei gynnwys yn Rhan 2 - Diddordebau Eraill. Mae angen nodi enw'r corff / sefydliad yn llawn (dim talfyrriadau) ac mae'n rhaid cwblhau'r golofn ar y dde (gan nodi statws yr unigolyn ar y corff hwnnw) hefyd.
→ Gwiriwch fod yr adran hon wedi'i chwblhau'n foddhaol. A oes unrhyw beth yn aneglur? A ddefnyddiwyd talfyrriadau?

1.4 Rhaid i aelodau sicrhau eu bod yn rhoi llinell drwy flychau amherthnasol neu eu bod yn ysgrifennu "dim", "na", "amherthnasol".
→ Gwiriwch nad oes unrhyw flwch yn cael ei adael yn wag – naill ai mae angen gwybodaeth sylweddol neu gadarnhad nad oes angen cynnwys gwybodaeth yn yr adran honno.

1.5 Dylai'r rhestr o aelodaeth o gyrff allanol, a gofnodir gan y Cyngor ar gyfer pob Aelod, (mae'r ddolen i'r rhestr hon yn A1 uchod) fod yr un peth â'r hyn sydd wedi'i gynnwys gan yr Aelod ar eu Cofrestr Sefydlog
→ Gwiriwch a oes unrhyw anghysondebau rhwng y rhestr sy'n cael ei darparu gan y Cyngor a'r rhestr y mae'r Aelod wedi'i chynnwys ar y Gofrestr.

1.6 Dylai'r wybodaeth berthnasol sy'n ymddangos ar Gofrestr Diddordebau'r Aelod fod yr un fath â'r wybodaeth ar dudalen bywgraffiad yr Aelod.
→ A oes unrhyw wybodaeth ar dudalen bywgraffiad yr Aelod nad yw'n cyfateb â'r wybodaeth ar eu Cofrestr Sefydlog?

1.7 Mae'r broses ar gyfer cwblhau a diwygio'r Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau yn cynnwys Aelodau'n mewnbynnu eu manylion drwy eu tudalen bersonol oddi mewn tudalen gartref MyDemocracy. Mae cyfarwyddiadau ar sut mae gwneud hyn wedi eu cynnwys mewn canllaw "Sut i ddiweddaru eich cofrestr o ddiddordeb" sydd ar gael yma.
Mae'r bylchau sydd wedi eu cynnwys ar y Gofrestr yn dilyn yr hyn sydd wedi eu rhestru yn y Cod Ymddygiad fel y materion mae'n ofynnol i Aelodau eu cynnwys ar eu dogfennau Cyn-Gofrestru.

→Ydi'r broses yn glir? Oes gennych chi awgrymiadau sut gellir gwella'r broses?
→Ydi'r Canllaw yn hawdd ei ddeall? Oes gennych chi awgrymiadau sut gellir gwella'r Canllaw?

2. **<u>Y Gofrestr Datgan Diddordebau mewn Cyfarfodydd</u>**

2.1 Yn gyffredinol, ac fel mater o egwyddor, dylai'r ffurflenni datganiad papur (a gedwir gan yr adain Pwyllgorau (Gwasanaeth Democrataidd) ar ôl iddynt gael eu llenwi gan yr Aelod) sefyll ar eu pen eu hunain er mwyn i'r cyhoedd ddeall y diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar y rhaglen, y cysylltiad â'r eitem honno, ac a yw'n ddiddordeb personol neu'n ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu, sy'n golygu fod rhaid i'r Aelod adael y cyfarfod o ganlyniad.
→ Gwiriwch a gafodd y ffurflen ei llenwi'n gyflawn ac mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i unrhyw un sy'n ei darllen (h.y. aelodau o'r cyhoedd sydd ddim yn meddu ar wybodaeth neu arbenigedd penodol mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad a'i ofynion)?
→ A oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar y Rhaglen?

2.2 A oes unrhyw arwydd bod yr Aelodau yn cael anhawster i wahaniaethu rhwng datgan diddordebau personol (lle y byddai hawl ganddynt i aros yn y cyfarfod) a datgan diddordebau personol sy'n rhagfarnu (lle mae'n ofynnol iddynt adael y cyfarfod)?
Neu a yw Aelodau'n datgan diddordebau yn ddiangen ac yn rhy ofalus?
→ Ystyriwch, ar sail y ffeithiau y mae'r Aelod wedi'u datgan / y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen, Adroddiadau a'r Cofnodion, a oedd y datganiad yn bersonol neu'n bersonol a rhagfarnus. A yw eich barn yn debyg i'r hyn a fynegodd yr Aelod?

2.3 Adolygwch y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod lle y gwnaed y datganiad i ganfod a yw'r Cofnodion hynny'n cadarnhau'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen bapur.
→ Gwiriwch fod y Cofnodion yn cadarnhau (a) bod datganiad o ddiddordeb wedi'i wneud, (b) a oedd y diddordeb hwnnw yn bersonol neu'n bersonol a rhagfarnus, a (c) os yw'n rhagfarnus, bod yr Aelod wedi gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.

2.4 → A oes unrhyw enghreifftiau ble mae Aelodau wedi datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ond wedi anghofio llenwi'r ffurflen datgan diddordeb mewn cyfarfodydd?

2.5 → Ydych chi'n dymuno awgrymu unrhyw newidiadau i'r ffurflen datgan diddordeb mewn cyfarfodydd er mwyn cynorthwyo Aelodau neu ei gwneud yn fwy eglur a/neu tryloyw i'r cyhoedd?

2.6 Proses bapur ydi'r broses ar gyfer cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd. Rhaid i bob Aelod gwblhau ffurflen bapur sy'n cadarnhau'r datganiad llafar a wnaethpwyd mewn cyfarfod; mae'r ffurflen yn cynnwys atgoffwyr er mwyn sicrhau bod pob Aelod yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad. Rhaid i'r Aelod ddarparu'r ffurflen bapur i swyddog o fewn yr adain Pwyllgorau (Gwasanaeth Democrataidd). Bydd y swyddog o'r adain Pwyllgorau'n mewnbynnu gwybodaeth yr Aelod ar y Gofrestr ar-lein.
→Ydi'r broses yn glir? Oes gennych chi awgrymiadau sut gellir gwella'r broses?
→ Ydi'r Canllaw yn hawdd ei ddeall? Oes gennych chi awgrymiadau sut gellir gwella'r Canllaw?

3. **<u>Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch</u>**

3.1 Rhaid gwneud datganiadau o fewn 28 diwrnod i dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n uwch na'r terfyn o £20. Gofynnir i chi adolygu'r cofrestriadau er mwyn penderfynu a ydynt yn cydymffurfio â gofyniad y Cod / y wybodaeth a geir yn y nodyn briffio (y cyfeirir ato yn A3

uchod).
→ Gwiriwch a yw'r Aelod wedi cynnwys digon o wybodaeth am yr eitem?
→ A yw'r Aelod wedi cofrestru'r rhodd/lletygarwch a dderbyniwyd mewn modd amserol?
→ Allwch chi awgrymu unrhyw welliannau neu gyngor pellach sydd angen ei ddarparu i'r Aelodau mewn perthynas â rhoddion/lletygarwch?

3.2 Y broses ar gyfer cofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynir ydi drwy Aelodau'n mewnbynnu'r manylion drwy eu tudalen gartref MyDemocracy.
→Ydi'r broses yn glir? Oes gennych chi awgrymiadau sut gellir gwella'r broses?

4. **Cofnodion Hyfforddiant Aelodau**

4.1 Adolygwch y cofnod papur a ddarperir gan Adnoddau Dynol a'i gymharu â'r wybodaeth ar dudalen fywgraffiad yr Aelod.
→ A yw'r wybodaeth yn y ddau yn gyson?

4.2 → Ystyriwch faint o sesiynau hyfforddi y mae'r Aelod wedi'u mynychu o gymharu â nifer y sesiynau y gwahoddwyd nhw i'w mynychu.

4.3 → A oes sesiynau hyfforddi penodol y mae'r Aelod wedi methu â'u mynychu sy'n achosi pryder penodol?

5. **Adroddiadau Blynyddol**

5.1 → A yw'r Aelod wedi llunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod perthnasol?

5.2 → A yw'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyflawn? A yw'n cydymffurfio â'r wybodaeth a gofnodir ar gyfer yr Aelod yn rhywle arall e.e. rhestr aelodau o gyrff allanol, cofnod hyfforddiant ayb ?

**C. ADRODD AR EICH CANFYDDIADAU**

1. Awgrymir eich bod yn adrodd ar eich canfyddiadau drwy ddefnyddio tabl gyda'r penawdau a ganlyn:

| ADOLYGYDD | AELOD | COFRESTR SEFYDLOG DATGAN DIDDORDEBAU | DATGANIADAU MEWN CYFARFODYDD | RHODDION A LLETYGARWCH | HYFFORDDIANT | ADRODDIAD BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

2. Y wybodaeth a gaiff ei chynnwys o dan bob pennawd fydd yr 'atebion' i'r cwestiynau hynny a ofynnwyd yn **B** uchod, wrth ystyried y dogfennau y cyfeirir atynt yn **A** uchod.

3. Cewch gynnwys unrhyw wybodaeth / sylwadau pellach nad ydynt wedi'u crybwyll neu y cyfeiriwyd atynt yn y Nodyn Cynghori hwn. Paratowyd y nodyn hwn ar ffurf canllawiau yn unig ac nid yw wedi'i gynllunio i gyfyngu ar y modd yr ydych yn cynnal yr adolygiad.

4. Os, yn dilyn cynnal yr adolygiad, yr ydych angen gwybodaeth neu fanylion pellach, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Aelod perthnasol ar bob cyfrif.

Paratowyd gan y Swyddog Monitro
Medi 2023